# Cynllun Blynyddol 2012/13

Dyddiad cyhoeddi: 29 Mawrth 2012

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb gweithredol | 2 |
| 2 | Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian | 6 |
| 3 | Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13 | 9 |
| 4 | Meysydd gwaith ar gyfer 2012/13 | 21 |
| 5 | Gwaith rhaglenni a gwasanaethau i randdeiliaid | 33 |
| 6 | Agwedd Ofcom at reoleiddio | 38 |

| Atodiad | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad | 41 |

Adran 1

# Crynodeb gweithredol

## Mae Cynllun Blynyddol Ofcom yn rhoi ein rhaglen waith ar gyfer 2012/13

1.1 Mae'r Cynllun Blynyddol hwn yn rhoi blaenoriaethau a rhaglen waith Ofcom ar gyfer y deuddeg mis rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2013.

1.2 Mae ein cynllun wedi cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Rydym wedi ymateb i'r pwyntiau a godwyd yn y cynllun ei hun, ac yn fwy manwl yn yr atodiad. Ochr yn ochr â'r cynllun hwn rydym hefyd wedi cyhoeddi tabl ar ein gwefan sy'n rhoi'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn nesaf[1].

## Ein dibenion strategol sy'n tywys ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod

1.3 Prif ddyletswydd Ofcom yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebu a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth. Felly, mae anghenion defnyddwyr a dinasyddion wrth galon ein rhaglen waith.

1.4 Sefydlodd Ofcom bum diben strategol y llynedd, sy'n adlewyrchu ein dyletswyddau i ddinasyddion a defnyddwyr yn y sector cyfathrebu, ac sy'n fframio ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd |

1.5 Mae rhaglen waith Ofcom ar gyfer 2012/13 yn seiliedig ar y dibenion strategol hyn, ac yn cyfrannu ati y mae:

- blaenoriaethau'r llynedd a'n cynnydd yng nghyswllt y rhain;
- datblygiadau ehangach yn y farchnad, gan gynnwys sut y mae'r ffyrdd y mae defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu wedi newid;
- newidiadau deddfwriaethol i'n dyletswyddau, yn fwyaf arbennig ein cyfrifoldeb newydd dros reoleiddio gwasanaethau post;
- meysydd lle mae Ofcom yn darparu arbenigedd technegol ac arbenigedd am y sector i gynghori'r llywodraeth; a
- materion ychwanegol a godwyd drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

---

[1] [Dolen we]

## Mae gan y sector cyfathrebu rôl economaidd a diwylliannol hollbwysig yn y DU

1.6 Ein nod yw cefnogi sector cyfathrebu iach lle caiff defnyddwyr eu cefnogi a'u hamddiffyn, lle mae amrywiaeth o gynnwys o ansawdd da ar gael, a lle mae defnyddwyr a dinasyddion yn elwa wrth i ddarparwyr sy'n cystadlu â'i gilydd gynnig gwasanaethau arloesol sy'n cael eu darparu dros seilwaith cadarn.

1.7 Mae ymddygiad defnyddwyr a thechnolegau newydd yn newid y farchnad ac mae angen i Ofcom sicrhau bod ei waith yn adlewyrchu'r datblygiadau hyn, ac yn ymateb iddynt.

- Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar fand eang yn dal i dyfu ac erbyn hyn mae wedi cyrraedd tri chwarter (76%) o holl gartrefi'r DU, er bod y ffigur yn amrywio yn ôl ardaloedd. Mae band eang cyflym iawn ar gael i 58% o eiddo ar draws y DU. Mae'n fwy cyffredin mewn ardaloedd trefol a lle mae arian cyhoeddus wedi cael ei ddarparu.

- Mae twf sylweddol wedi bod yn y nifer sy'n defnyddio ffonau clyfar, gyda dros bedwar o bob deg (45%) o ddefnyddwyr ffôn symudol yn defnyddio ffôn clyfar erbyn hyn, sy'n cynyddu'r nifer sy'n cysylltu â'r rhyngrwyd drwy ffonau symudol. Bydd dau ddeg wyth y cant o holl oedolion y DU yn defnyddio'r rhyngrwyd drwy eu ffôn symudol.

- Mae gan bron i bob cartref yn y DU (94%) deledu digidol nawr, wrth i ni ddod yn nes at gwblhau newid i'r digidol yn 2012.

## Mae gan Ofcom ddyletswydd i gefnogi buddiannau defnyddwyr ledled y DU

1.8 Mae ein dyletswyddau'n adlewyrchu ein cyfrifoldebau tuag at ddefnyddwyr ar draws y DU i gyd, gan gynnwys cwsmeriaid busnesau mawr a bach. Maent yn cynnwys gofynion arnom i ystyried buddiannau pobl ardaloedd gwahanol y DU a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

1.9 Fel rhan o'n dyletswyddau statudol, byddwn yn parhau i ddarparu adroddiadau ar y niferoedd sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu yng ngwledydd y DU a rhanbarthau Lloegr, eu hargaeledd ac ansawdd y gwasanaethau hynny. Bydd y ffynonellau data hyn yn cael eu darparu'n gyhoeddus i'r llywodraeth, darparwyr gwasanaethau cyfathrebu a defnyddwyr.

1.10 Yn ystod 2012-13 bydd ein blaenoriaethau'n cefnogi defnyddwyr ar draws y DU. Y mae'r meysydd sydd o ddiddordeb arbennig i'r gwledydd yn cynnwys:

- mannau di-gyswllt symudol;

- cyflwyno band eang cyflym iawn;

- argaeledd radio cymunedol a theledu lleol; a hefyd

- y ddarpariaeth gyffredinol o ran gwasanaethau cyfathrebu yn y gwledydd.

## Mae Ofcom bellach yn gyfrifol am reoleiddio'r gwasanaethau post

1.11 Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi dyletswyddau newydd a diwygiedig ar waith, sy'n gofyn am wneud nifer o newidiadau i rôl a chyfrifoldebau Ofcom. Y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw ein cyfrifoldeb newydd dros reoleiddio gwasanaethau post y DU.

1.12 Ysgwyddodd Ofcom y cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post gan Postcomm ar 1 Hydref 2011. Roedd hyn yn dilyn argymhellion Adroddiad Hooper yn 2010 ar y sector gwasanaethau post, a gafodd eu derbyn gan y llywodraeth a'u rhoi ar waith drwy Ddeddf Gwasanaethau Post 2011.

1.13 Mae sector y gwasanaethau post yn hanfodol i economi a chymdeithas y DU. Mae'n rhan o sector cyfathrebu llawer ehangach a dylanwadir arno gan y nifer cynyddol sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu eraill.

1.14 Yn 2010, dosbarthwyd 16 biliwn llythyr i 28.2 miliwn o gyfeiriadau[2]. Mae'r gwasanaeth post cyffredinol, sy'n sicrhau bod y llythyrau hyn yn cael eu dosbarthu i bob cyfeiriad yn y DU, chwe diwrnod yr wythnos, am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol, yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y cyhoedd.

1.15 Dan y Ddeddf Gwasanaethau Post, mae gennym ddyletswydd graidd i gyflawni ein swyddogaethau mewn perthynas â phost mewn ffordd a fydd yn parhau i sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Wrth gyflawni hyn, byddwn yn cynrychioli buddiannau cwsmeriaid busnes a phreswyl.

## Rydym hefyd yn ymgymryd â dyletswyddau newydd a diwygiedig mewn meysydd eraill

1.16 Mae newidiadau eraill i ddeddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Ewropeaidd hefyd wedi newid ein dyletswyddau ni. Maent yn cynnwys:

- datblygu'r fframwaith i roi darpariaethau yn Neddf yr Economi Ddigidol ar waith sy'n anelu at fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein; ac
- ym mis Mai 2011 rhoesom ddarpariaethau diwygiedig y Fframwaith Ewropeaidd ar gyfer Cyfathrebu Electronig ar waith.

## Ein blaenoriaethau ar gyfer 2012/2013

1.17 Byddwn yn canolbwyntio'n bennaf yn y flwyddyn ariannol nesaf ar y meysydd blaenoriaeth yn Ffigur 1. Bydd rhai o'n meysydd blaenoriaeth yn rhaglen waith y llynedd yn parhau yn ystod 2012/13, ochr yn ochr â nifer o feysydd gwaith newydd.

1.18 Byddwn yn asesu a fydd ein blaenoriaethau ar gyfer 2012/13 wedi'u cyflawni'n llwyddiannus yn erbyn y canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn ceisio'u sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr. I gyflawni hyn, rydym wedi pennu canlyniadau interim a therfynol ar gyfer pob un o'n blaenoriaethau (gweler tudalen 17) a byddwn yn mesur ein cynnydd tuag at gyflawni'r rhain yn ein Hadroddiad Blynyddol.

[2]Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys deunyddiau heb gyfeiriad arnynt.

### Ffigur 1: Blaenoriaethau Cynllun Blynyddol 2012/13

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd |
|---|---|---|---|---|
| • Sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd cysylltedd busnes a ffôn llais<br>• Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad wrth gyflwyno band eang cyflym iawn | • Cynnal arwerthiant y bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz<br>• Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn rhoi dyfarniadau newydd, ar yr un pryd â lliniaru materion cyd-fodolaeth<br>• Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn Llundain | • Hyrwyddo dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir am wasanaeth, pris ac ansawdd ar gael<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn golygu ei bod yn haws i ddefnyddwyr newid o un Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu i un arall<br>• Sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post<br>• Asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd | • Ystyried dulliau rheoleiddio newydd o ran rheoleiddio cynnwys, gan gynnwys adolygiad o fideo ar alwad | • Cyngor cyson i'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd y cyfryngau a chyfrannu at Ymchwiliad Leveson<br>• Gweithio ar y cyd gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau digyswllt ffonau symudol<br>• Gweithredu darpariaethau Deddf Economi Ddigidol 2010 yn ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein |

1.19 Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, byddwn yn ymgymryd ag amrywiaeth o waith arall fel rhan o'n rhaglen 2012/13 (a drafodir yn Adran 4), gan adlewyrchu ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau i randdeiliaid eraill (megis trwyddedu mynediad i'r sbectrwm radio). Byddwn yn darparu'r gwasanaethau hyn yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl, gan wneud arbedion cost termau real bob blwyddyn.

1.20 Byddwn hefyd yn parhau i ymateb i faterion newydd, methiannau a fydd yn codi yn y farchnad, pryderon sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ar draws y DU, a cheisiadau'r llywodraeth, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf.

**Adran 2**

# Cyflawni ein dyletswyddau a gwerth am arian

## Mae Ofcom yn darparu gwerth am arian o fewn ei gyllideb

2.1 Y llynedd, ymatebodd Ofcom i'r sialensiau ehangach sy'n wynebu gwariant cyhoeddus drwy adolygu sut mae'n rheoleiddio'n effeithiol mewn ffordd wedi'i thargedu er budd dinasyddion a defnyddwyr, gan sicrhau gwerth am arian yr un pryd i'w randdeiliaid.

2.2 Yng Nghynllun Blynyddol 2011/12, nodwyd sut y byddem yn cyflawni'r gwelliannau hyn drwy ein Prosiect Adolygu Gwariant mewnol ac mae Cynllun Blynyddol eleni yn adlewyrchu ein cyflawniadau hyd yma yng nghyswllt y cynllun hwn.

2.3 Ar ben y sialens economaidd, rydym hefyd yn ymroi i ymateb i newidiadau yn neddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Ewropeaidd.

## Integreiddio rheoleiddio'r gwasanaeth post

2.4 Ysgwyddodd Ofcom y cyfrifoldeb dros reoleiddio gwasanaethau post y DU gan Postcomm ar 1 Hydref 2011. Yn y cyfnod yn arwain at hyn, gweithiodd Ofcom a Postcommgyda'i gilydd yn agos i sicrhau y byddai'r cyfrifoldebau rheoleiddio'n trosglwyddo'n ddidrafferth gan darfu cyn lleied â phosibl ar y diwydiant a defnyddwyr.

2.5 Yn ystod y cyfnod pontio, bu Grŵp Llywio'r gwaith Integreiddio a oedd yn cynnwys uwch reolwyr o Postcomm ac Ofcom yn cyfarfod yn rheolaidd i gytuno ar sut i drosglwyddo'r cyfrifoldeb rheoleiddio ac i fonitro'r cynnydd. Mynychodd aelodau o dîm rheoli Ofcom Fwrdd Gweithredol Postcomm gan gydweithio'n agos â'u cymheiriaid i wneud yn siŵr y byddai'r holl weithrediadau'n cael eu trosglwyddo mewn modd effeithiol ac effeithlon. Yr un pryd, cafodd nifer o aelodau Bwrdd Ofcom eu penodi i Fwrdd Postcomm.

2.6 Rydym yn disgwyl y bydd gwir gyfanswm gost rheoleiddio yn disgyn oddeutu £2m y flwyddyn ar ôl trosglwyddo o Postcomm i Ofcom.

## Cyflawni ein Prosiect Adolygu Gwariant mewnol

2.7 Bwriad ein Prosiect Adolygu Gwariant oedd galluogi'r sefydliad i gyflawni ei ymrwymiadau er gwaethaf gostyngiadau yn ei gyllid, gan hefyd sicrhau mwy o ffocws strategol ac effeithiolrwydd trefniadol dros gyfnod o bedair blynedd.

2.8 Arweiniodd yr adolygiad cynhwysfawr hwn o'n holl ofynion ariannol at lunio set glir o fesurau i'n galluogi i gyflawni ein holl ymrwymiadau (heblaw am y gwasanaethau post) o fewn gostyngiad targed termau real o 28.2% (dros bedair blynedd), yn unol â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

2.9 Hyd yma, rydym wedi sicrhau arbedion o 22.5% ac ar ein ffordd i gyflawni'r gostyngiad 28.2% gofynnol dros y pedair blynedd. Un elfen yma yw costau staff: Disgwylir y bydd gan Ofcom oddeutu 170 yn llai o staff cyfwerth ag amser llawn

erbyn 2014/15, heb gynnwys unrhyw ychwanegiadau o ganlyniad i reoleiddio'r gwasanaethau post.

## Rheoli ein hadnoddau'n effeithiol

2.10 Er mwyn galluogi Ofcom i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, rydym wedi cryfhau ein swyddogaeth fasnachol er mwyn hyrwyddo'r canlynol yn well:

- Caffael proffesiynol a chynaliadwy, yn unol â holl gyfreithiau perthnasol y DU a'r UE; a
- sicrhau gwerth am arian ac ansawdd gwasanaethau, gan leihau risgiau masnachol a chyfreithiol i'r eithaf ar yr un pryd.

2.11 Yn sail i hyn y mae prosesau caffael a chontractio clir a chadarn sy'n deg, yn dryloyw ac yn anwahaniaethol gan roi ystyriaeth lawn i arferion gorau sy'n datblygu. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl gyflenwyr posibl yn cael yr un cyfle i gystadlu am fusnes Ofcom.

## Harneisio technolegau newydd

2.12 Yn ystod 2011/12, symudon ni ein seilwaith TG i ddarparwr gwasanaeth allanol. O'r herwydd, rydym wedi sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn costau caledwedd a bydd y rhain, ochr yn ochr â'r cytundebau lefel gwasanaeth gorau posibl gyda'n partner TG newydd, yn arwain ar arbedion sylweddol bob blwyddyn.

2.13 Er mwyn rhoi mwy o ddewis a gwell gwasanaeth i ddefnyddwyr, rydym yn gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig ar-lein, gan adael i ddefnyddwyr gofnodi cwynion drwy ein gwefan, yn hytrach na gorfod dibynnu'n llwyr ar ein canolfan cyswllt defnyddwyr.

2.14 Byddwn yn ymestyn y gwasanaeth hwn yn ystod 2012/13 a thu hwnt. Yn ogystal â bod o fudd i ddefnyddwyr, bydd hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd yn ein dulliau adrodd a chasglu data, Yn bwysig iawn, bydd hyn, am y tro cyntaf, yn galluogi defnyddwyr i gofnodi cwynion y tu allan i oriau gwaith. Yn ei dro, rydym yn rhagweld y gallai hyn gynyddu nifer y cwynion y byddwn yn gallu rhoi sylw iddynt.

## Cyflawni gwaith o ansawdd da a gwerth am arian

2.15 Rydym wedi rhoi fframwaith wedi'i ddiweddaru ar waith ar gyfer cyflawni prosiectau'n effeithiol a fydd wedi'i wreiddio'n llawn erbyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Elfen bwysig o'r fframwaith hwn yw rhoi esboniad clir o'r canlyniad a ddymunir ar gyfer pob gweithgarwch y byddwn yn ymgymryd ag ef. Mae'r canlyniadau hyn yn pennu'r buddion cadarnhaol yr ydym yn ceisio'u darparu i ddinasyddion a defnyddwyr o ganlyniad i'n gwaith.

2.16 Rydym eto wedi gosod canlyniadau interim a therfynol yng Nghynllun Blynyddol eleni i asesu ein llwyddiant yn cyflawni ein blaenoriaethau. Byddwn yn darparu adroddiad am ba mor llwyddiannus y buom yn cyflawni yn erbyn y canlyniadau hyn, a llwyddiant ein hymyriadau, yn ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2012/13.

## Mae'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2012/13 yn ymgorffori'r newidiadau hyn

2.17 Wrth ddatblygu ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn o'n blaenau rydym wedi ceisio adlewyrchu datblygiadau ymysg defnyddwyr a'r farchnad yn ogystal ag unrhyw newidiadau deddfwriaethol tebygol. Mae ein rhaglen waith yn adlewyrchu lle rydym yn disgwyl ysgwyddo cyfrifoldebau sylweddol newydd, ar yr un pryd â sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu dyrannu i'r dyletswyddau rydym eisoes yn eu cyflawni.

2.18 Mae'r gyllideb ar gyfer 2012/13 yn £121.4 miliwn; mae hyn yn cynnwys £7.2 miliwn i Ofcom gyflawni ei ddyletswyddau newydd i reoleiddio'r sector gwasanaethau post ar ôl uno â Postcomm ym mis Hydref 2011. Roedd cyllideb Ofcom yn 2011/12 yn £115.8 miliwn. Cafodd y gyllideb ei gosod cyn i Ofcom uno â Postcomm ac roedd cyllideb y corff hwnnw ar gyfer 2011/12 yn £8.9 miliwn. Ac ystyried y gyllideb graidd is a'r gyllideb is ar gyfer rheoleiddio post, bydd Ofcom yn cyflawni gostyngiad termau real o 6.1 y cant (2.6 y cant mewn termau nominal) yn ei gyllideb o un flwyddyn i'r llall.

### Adran 3

# Blaenoriaethau ar gyfer 2012/13

## Ein dibenion strategol sy'n tywys ein blaenoriaethau, sy’n adlewyrchu'r amgylchedd economaidd a deddfwriaethol a defnyddwyr.

3.1 Mae’r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2012/13 yn gwahanu ein rhaglen waith i’r categorïau canlynol:

- **Blaenoriaethau,** sy'n cynrychioli meysydd gwaith hanfodol i Ofcom eu hyrwyddo yn y flwyddyn i ddod i sicrhau ein bod yn hybu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

- **Canlyniadau** ar gyfer pob un o’n blaenoriaethau, i asesu ein llwyddiant yn eu cyflawni a sicrhau ei bod yn darparu buddion cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr.

- **Meysydd gwaith eraill,** materion pwysig y bwriadwn wneud rhagor o waith arnynt yn ystod 2012/13 (Adran 4).

- **Gwaith rhaglenni** a chyfrifoldebau yr ydym yn eu cyflawni'n barhaus, gan ddarparu gwasanaethau allweddol i randdeiliaid, dinasyddion a defnyddwyr (Adran 5).

3.2 Er mwyn ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad a newidiadau i ddeddfwriaeth, mae ein blaenoriaethau’n cydbwyso gwaith newydd ag ymrwymiadau parhaus pwysig. Maent yn cael eu tywys gan ein pum diben strategol:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd |

## Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

3.3 Rydym yn credu bod angen rheoleiddio *exante* parhaus i ymateb i gyflymder y newid yn y sectorau a reoleiddir gennym. Rydym wedi pennu dwy flaenoriaeth benodol ar gyfer 2012/13, sy'n ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad ac y bwriedir iddynt ddarparu manteision sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr.

| | |
|---|---|
| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | • Sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd cysylltedd busnes a ffôn llais<br>• Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad wrth gyflwyno band eang cyflym iawn |

### Sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd ffôn llais a chysylltedd busnes a diogelu defnyddwyr terfynol

3.4 Bydd ein *Hadolygiad o’r Farchnad Cysylltedd Busnes* yn ystyried a oes eisiau rheoleiddio er mwyn mynd i’r afael â phŵer sylweddol yn y farchnad sy’n berthnasol i

ystod eang o wasanaethau a ddefnyddir gan fusnesau a darparwyr cyfathrebu, gan gynnwys:

- rhwng y safleoedd sy'n perthyn i fusnes neu sefydliad neu rhwng busnesau (e.e. busnes a phrif gyflenwr);
- rhwng busnesau a'r rhyngrwyd; a
- y rheini a brynir gan ddarparwyr cyfathrebu i gludo traffig symudol neu fand eang rhwng y defnyddwyr terfynol a'u rhwydwaith.

3.5 Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn ystyried a ddylai'r rheolaethau presennol ar gyfer ffioedd barhau ac, os dylent, beth ddylai'r lefel ffioedd briodol fod ar gyfer y tair blynedd o fis Medi 2012 ymlaen. Rydym yn bwriadu cwblhau'r adolygiad hwn (ac unrhyw reolaethau ffioedd cysylltiedig) erbyn mis Medi 2012, pan ddaw'r rheolaethau presennol i ben.

3.6 Byddwn hefyd yn dechrau Adolygiad o'r Farchnad Band Cul i asesu'r marchnadoedd adwerthu a chyfanwerthu ar gyfer llinellau a galwadau llais. Byddwn yn asesu llwyddiant tynnu rheolau oddi ar wasanaeth adwerthu BT (yn 2006), ac a oes angen rhagor o ymyrryd i ddiogelu'r defnyddwyr terfynol. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried pa reoliadau, os o gwbl, sydd eu hangen yn y marchnadoedd cyfanwerthu a fydd yn cynnwys y marchnadoedd cychwyn galwadau, terfynu galwadau daearyddol a thrawsgludo, i hybu cystadleuaeth a sicrhau manteision i ddefnyddwyr mewn marchnadoedd cysylltiedig, gan gynnwys adwerthu. Bwriadwn orffen y gwaith hwn erbyn mis Medi 2013, cyn i'r rheolaethau presennol ar gyfer ffioedd ddod i ben ar gyfer galwadau cyfanwerthu.

### Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn

3.7 Mae Ofcom wedi sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer buddsoddi mewn mynediad y genhedlaeth nesaf (NGA) a chystadleuaeth mewn band eang cyflym iawn. Mae'r fframwaith hwn yn mynnu bod BT yn cynnig rhith fynediad lleol heb ei fwndelu (VULA) at ei seilwaith ffibr cenhedlaeth nesaf, er mwyn i ddarparwyr eraill allu cystadlu gyda BT i gyflenwi gwasanaethau band eang cyflym iawn i ddefnyddwyr. Mae hefyd yn mynnu bod BT yn darparu mynediad i'w seilwaith ffisegol, gan gynnwys pibelli a pholion, fel bo gan ddarparwyr eraill y dewis o fuddsoddi mewn NGA.

3.8 Yn ystod 2012/13 byddwn yn parhau i sicrhau bod BT yn ymateb i bob cais rhesymol am gael y mynediad hwn, a gwasanaethau eraill sydd wedi'u rheoleiddio (megis WLR a LLU), gan ganiatáu i ddarparwyr eraill eu defnyddio'n effeithiol. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda BT, Swyddfa'r Dyfarnwr Telathrebu (OTA) a rhanddeiliaid yn y diwydiant, i ddal ati i sicrhau bod gwasanaethau mynediad cyfanwerthu BT yn diwallu anghenion darparwyr cyfathrebu ac, yn y pen draw, defnyddwyr.

## Diben Strategol 2: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

3.9 Mae Ofcom yn gyfrifol am sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o'r sbectrwm electromagnetig. Ac ystyried gwerth posibl gwasanaethau sy'n cael eu galluogi gan adnoddau sbectrwm i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, mae rheoli sbectrwm yn gryn gyfrifoldeb. Mae asesu sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio ac, os yw'n briodol cymryd camau i alluogi newid ei ddefnydd, yn bwysig i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr.

| Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | • Cynnal arwerthiant y bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz<br>• Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn rhoi dyfarniadau newydd, ar yr un pryd â lliniaru materion cyd-fodolaeth<br>• Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 yn Llundain |
|---|---|

## Arwerthiannau bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz

3.10 Mae newid gwasanaethau teledu i'r digidol yn rhoi'r cyfle i ryddhau llawer o sbectrwm dan 1 GHz (a elwir y difidend digidol) mewn bandiau amledd sy'n arbennig o addas ar gyfer rhaglenni band eang di-wifr a darlledu. Y prif fandiau sbectrwm y bwriadwn eu harwerthu flwyddyn nesaf yw'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz.

3.11 Bwriadwn gynnal arwerthiant am drwyddedau i ddefnyddio'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz ym mlwyddyn ariannol 2012/13. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn:

- cwblhau'r ymgynghoriad ynghylch ein hasesiad o gystadleuaeth yn y dyfodol yn y marchnadoedd symudol a'r cynigion ar gyfer cynllunio'r arwerthiant cyfun;
- cyhoeddi ein penderfyniadau terfynol ar y materion hyn;
- ymgynghori ynghylch rheoliadau arwerthiannau drwy gyfrwng is-ddeddfwriaeth a'u cadarnhau, a chyhoeddi Memorandwm Gwybodaeth; a
- llunio fersiwn terfynol meddalwedd i gynnal yr arwerthiant a hyfforddi'r rheini a allai gymryd rhan ynghylch sut mae ei ddefnyddio.

## Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, gan liniaru materion sy'n ymwneud â chydfodoli'r un pryd

3.12 Er mwyn hwyluso'r dyfarniadau ar gyfer sbectrwm yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz, rydym yn gwneud llawer o waith i glirio'r sbectrwm hwn. Rydym yn symud gwasanaethau sy'n defnyddio'r band 800 MHz ar hyn o bryd - teledu daearol digidol, a gwneud rhaglenni a digwyddiadau arbennig - i fandiau sbectrwm eraill.

3.13 Rydym yn asesu'r effaith y gallai lansio band eang symudol yn y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz ei chael ar wasanaethau cyfagos, gan gynnwys gweithredwyr amlblecs teledu (yn agos at 800 MHz) a radar yn y band 2.7 GHz (a elwir hefyd yn Fand-S). Lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol, byddwn yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r effaith honno. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori ar drefniadau i liniaru ymyrraeth â gwasanaethau teledu digidol cyfredol o fand eang symudol. Byddwn yn cwblhau ein hasesiad mewn da bryd ar gyfer y Memorandwm Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r arwerthiant ar gyfer y sbectrwm hwn.

3.14 Byddwn yn parhau â'n gwaith i symud defnyddwyr cyfredol o'r band 800 MHz yn 2012/13. Bydd hyn yn cynnwys:

- cwblhau'r holl grantiau dan y cynllun i helpu defnyddwyr digwyddiadau arbennig a gwneud rhaglenni i symud o sianel 69, ar frig y band 800 MHz; a
- pharhau i weithio gyda gweithredwyr amlblecs, Digital UK ac Arqiva, i glirio teledu daearol digidol (DTT) o sianeli 61 a 62 ar waelod y band 800 MHz.

3.15 Byddwn hefyd yn bwrw ymlaen â gwaith i helpu i reoli risgiau ymyrraeth i ddefnyddwyr mewn bandiau cyfagos. Bydd hyn yn cynnwys:

- cyfleuster profi a fydd yn gwbl weithredol ar gyfer dyfeisiau pellter agos, gan gynnwys larymau cymdeithasol, a fydd ar gael yn Baldock ddechrau 2012/13;

- cynlluniau i reoli'r risg o ymyrraeth gyda defnydd gwasanaethau brys cyfagos i'w rhoi ar waith gan y llywodraeth, Ofcom a defnyddwyr perthnasol o 2012/13 ymlaen; a

- darparu cymorth i ddefnyddwyr i liniaru ymyrraeth i deledu daearol digidol o fand eang symudol yn y band 800 MHz, yn ystod rhan olaf 2012/13.

3.16 Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Drafnidiaeth, yr Awdurdod Hedfan Sifil, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r diwydiant i gyflawni'r rhaglen angenrheidiol o uwchraddio y mae ei hangen i ddiogelu radar band S rhag allyriadau oddi wrth ddefnyddwyr sbectrwm 2.6 GHz a 3.4 GHz.

## Cyflawni gwarant sbectrwm y Llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain

3.17 Cyhoeddodd Ofcom gynllun sbectrwm llawn ar gyfer Gemau Llundain yn 2012 a oedd yn disgrifio ein cynlluniau ar gyfer darparu trwyddedau i ddefnyddwyr di-wifr a rheoli unrhyw achosion o ymyrraeth. Ein cyfraniad ni at lwyddiant y digwyddiad fydd sicrhau bod y sbectrwm hwnnw'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol, gyda chyn lleied â phosibl o darfu'n digwydd i ddefnyddwyr.

3.18 Yn ystod 2012/13 byddwn yn gwneud y canlynol:

<u>Cyn y Gemau</u>

- Gwneud yr holl aseiniadau technegol o ran y sbectrwm ar gyfer defnyddwyr y Gemau a chydgysylltu'r rhain ag aseiniadau ar gyfer pawb arall, gan weithredu prosesau trwyddedu sy'n bodloni anghenion trefnwyr y Gemau a'r rheini fydd yn cymryd rhan.

- Cyfrannu at y digwyddiadau profi terfynol cyn dechrau'r Gemau a rhoi unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer gwella ar waith.

- Gweithredu proses ar gyfer rhag-gomisiynu, profi a thagio'r offer di-wifr i leihau'r risg o ymyrraeth niweidiol yn lleoliadau'r Gemau.

<u>Yn ystod y Gemau</u>

- Darparu sbectrwm ar gyfer cyfryngau heb eu hachredu a defnyddwyr eraill, cyn belled ag y bo modd, yn ystod y cyfnod o alw dwys iawn yn ystod haf 2012, gan weithio gydag Arqiva (JFMG).
- Darparu cymorth 24/7 yn ystod y Gemau, gan weithio gyda staff arbenigol yn y Ganolfan Gweithrediadau Technoleg a'r Ganolfan Reoli Genedlaethol i sicrhau bod unrhyw broblemau'n cael eu datrys yn gyflym.

- Darparu staff arbenigol a chyfarpar yn holl brif leoliadau'r Gemau i helpu defnyddwyr trwyddedig i gynnal a chadw eu gwasanaethau, a delio ag unrhyw ymyrraeth niweidiol.

- Darparu adroddiadau amser-real i'rllywodraeth am faterion sbectrwm a chwarae ein rhan yn llawn mewn gweithgareddau traws-lywodraethol i ddatrys unrhyw broblemau yn ystod cyfnod y Gemau.

Ar ôl y Gemau

- Darparu adroddiadau manwl a gwersi a ddysgwyd i'r Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol, dinasoedd a fydd yn cynnal y Gemau Olympaidd yn y dyfodol a threfnwyr Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014, y bydd Ofcom yn darparu cynllun trwyddedu sbectrwm llawn ar eu cyfer a rheoli unrhyw achosion o ymyrraeth.

- Ailddefnyddio'r asedau a ddefnyddiwyd ar gyfer y Gemau i gefnogi tasgau parhaus Ofcom, gan sicrhau ein bod yn cael y gwerth llawn ohonynt wedi hynny.

## Diben Strategol 3: Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr

3.19 Mae marchnadoedd cyfathrebu'n datblygu'n gyflym ac mae defnyddwyr yn wynebu nifer o fethiannau ar yr ochr galw sy'n gofyn am reoleiddio sectorau penodol. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau buddion y ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol ar gyfer gwasanaethau post, gwella hwylustod newid i ddefnyddwyr a darparu gwybodaeth glir am wasanaethau cyfathrebu.

| | |
|---|---|
| Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr | • Hyrwyddo dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir am wasanaeth, pris ac ansawdd ar gael<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn golygu ei bod yn haws i ddefnyddwyr newid o un Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu i un arall<br>• Sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post<br>• Asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd |

### Hyrwyddo dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir am wasanaeth, pris ac ansawdd ar gael

3.20 Er mwyn i'r farchnad cyfathrebu weithio'n dda i ddefnyddwyr, credwn fod yn rhaid i ddefnyddwyr allu gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'n bwysig felly bod gwybodaeth sy'n glir, yn ddealladwy, ac yn gywir ar gael i ddefnyddwyr, i'w galluogi i wneud penderfyniadau a gweithredu arnynt, er enghraifft drwy newid darparwr er mwyn cael bargen well.

3.21 Yn ystod 2012/13 bydd gwaith Ofcom ar rymuso defnyddwyr yn rhoi sylw i feysydd lle credwn fod yr wybodaeth a ddarperir gan y farchnad yn annigonol. Bydd enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- **Ymchwil i gyflymder band eang**: Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod defnyddwyr yn cael gwybodaeth ddigonol am y cyflymderau sefydlog a symudol go iawn sydd ar gael i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus wrth ddewis eu darparwr band eang. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymchwil bob chwe mis, gan alluogi defnyddwyr i weld sut mae cyflymder band eang yn amrywio rhwng darparwyr, technolegau, ardaloedd daearyddol a chyfnodau amser gwahanol.

- **Data am gwynion defnyddwyr**: Rydym yn cofnodi'r cwynion a gaiff Ofcom yn ôl gwasanaeth a darparwr cyfathrebu. Credwn fod gwybodaeth o'r fath yn

ddefnyddiol i ddefnyddwyr, yn enwedig y rheini sy'n ystyried darparwr neu wasanaeth newydd. Ar ben hynny, gall cyhoeddi data am gwynion ynghylch darparwr penodol fod yn gymhelliant i ddarparwyr wella eu perfformiad. Bwriadwn barhau i ddatblygu'r rhaglen hon er mwyn i ddefnyddwyr allu defnyddio'r data i gymharu perfformiad darparwyr gwahanol.

3.22 Mae Ofcom yn gwneud rhagor o waith i werthuso'r amodau sy'n golygu bod atebion gwybodaeth i ddefnyddwyr yn y sector cyfathrebu fwyaf effeithiol. Y nod yw llunio fframwaith ar gyfer asesu a ddylid defnyddio atebion gwybodaeth a beth i'w ystyried wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso ateb gwybodaeth. Bydd y gwaith yn cynnwys rôl yr wybodaeth a ddarperir gan y rheoleiddiwr, darparwr y cynnyrch neu wasanaethau, a chyfryngwyr (e.e. gwefannau cymharu prisiau).

3.23 Bydd ein hadolygiad o brosesau newid yn parhau'n rhan bwysig o'n gwaith i hyrwyddo dewis effeithiol ar gyfer defnyddwyr yn ystod 2012/13.

## Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn gwella hwylustod newid rhwng darparwyr cyfathrebu

3.24 Un flaenoriaeth i Ofcom yw gwneud rhagor o gynnydd i sicrhau effeithiolrwydd y gweithdrefnau newid. I gyflawni hyn, rydym yn cynnal adolygiad o'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu electronig.

3.25 Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni dau ganlyniad allweddol:

- Profiad y defnyddiwr o newid yn hawdd a hwylus, heddiw ac yn y dyfodol. Mae arnom eisiau sicrhau nad oes dim rhwystrau proses diangen i newid ar gyfer gwasanaethau sengl neu fwndeli.
- Sicrhau nad yw profiad y defnyddiwr o brosesau newid yn rhwystro darparwyr rhag cystadlu i sicrhau manteision i bob defnyddiwr, o ran prisiau is, mwy o ddewis ac arloesedd, a gwerth am arian.

<u>Adolygu'r prosesau newid</u>

3.26 Mae newid rhwng darparwyr cyfathrebu'n aml yn gymhleth ac yn golygu cydlynu prosesau rhwng darparwyr mewn ffyrdd nad ydynt yn codi mewn marchnadoedd eraill. Mae defnyddwyr yn newid rhwng darparwyr mewn nifer o ffyrdd gwahanol; mae rhai o'r prosesau hyn wedi cael eu datblygu gan y diwydiant, ac mae eraill wedi cael eu dylunio gyda mewnbwn gan Ofcom.

3.27 Ym mis Chwefror 2012, cyhoeddasom ail ymgynghoriad ar ein hadolygiad strategol o'r prosesau newid. Daethom o hyd i nifer o broblemau mae defnyddwyr yn eu hwynebu wrth newid gwasanaethau llais sefydlog a band eang sy'n cael eu darparu dros rwydwaith copr Openreach. Roeddem wedi cyflwyno nifer o ddewisiadau i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Ar hyn o bryd, rydym o'r farn mai opsiwn Dilysiad Trydydd Parti (dewis 'a fyddai'n cael ei arwain gan y darparwr oedd yn ennill'), lle byddai defnyddwyr yn cadarnhau eu bod yn cytuno i newid drwy drydydd parti annibynnol oedd y dewis gorau i ddelio â'r problemau roeddem wedi dod o hyd iddynt. 23 Ebrill 2012 yw'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a disgwylir cyhoeddi datganiad yn ystod Chwarter 1 2013-14 (bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gyhoeddi cyn hyn yn ystod Chwarter 3 2012-13).

<u>Ffioedd ychwanegol mewn contractau ar gyfer gwasanaethau cyfathrebu</u>

3.28 Cwblhaodd Ofcom ei waith yn y sectorau llais sefydlog a band eang dan y Rhaglen Gorfodi Ffioedd Ychwanegol yn ystod 2011/12. Yn benodol, rydym wedi cwblhau ein gwaith yn y sectorau llais sefydlog, llais sefydlog a band eang a band eang yn unig, ar ôl gweithio gyda nifer o ddarparwyr yng nghyswllt tegwch eu telerau o ran ffioedd terfynu'n gynnar.

3.29 Rydym wedi penderfynu ymestyn y rhaglen orfodi am gyfnod pellach yn 2012/13 i barhau â'n gwaith ar delerau contractau defnyddwyr sy'n gysylltiedig â ffioedd ychwanegol.

## Sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post

3.30 Yn ôl y ddyletswydd gwasanaeth cyffredinol (USO) mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gasglu a dosbarthu llythyrau chwe diwrnod yr wythnos am bris fforddiadwy ac unffurf yn ddaearyddol i bob cyfeiriad yn y DU. Bellach, Ofcom sy'n rheoleiddio'r gwasanaethau post a'n prif ddyletswydd yw cyflawni ein swyddogaethau yng nghyswllt y post mewn ffordd a fydd, yn ein barn ni, yn sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol. Felly, mae sicrhau cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post cyffredinol yn flaenoriaeth i Ofcom. Heb newidiadau i'r fframwaith rheoleiddio, mae perygl na fydd y Post Brenhinol yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol i bob defnyddiwr ledled y DU.

3.31 Ym mis Hydref 2011, gwnaethom ymgynghori ar ddull newydd o reoleiddio'r gwasanaeth post yn economaidd, a chynnig y rhyddid i'r Post Brenhinol osod ei brisiau ei hun ar gyfer y rhan fwyaf o'i gynnyrch. Gwnaethom hefyd gynnig nifer o ragofalon rheoleiddio sylweddol i helpu i sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn aros yn hyfyw, ac i ddiogelu defnyddwyr, yn enwedig defnyddwyr agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys cap ar brisiau stampiau ail ddosbarth ar gyfer llythyrau safonol a monitro perfformiad y Post Brenhinol yn drylwyr yng nghyswllt y Ddyletswydd Gwasanaeth Cyffredinol.

3.32 Yn ystod 2012/13, yn unol â'n dyletswyddau newydd, byddwn yn bwrw ymlaen â'n dull gweithredu ar gyfer rheoleiddio'r post yn economaidd, drwy ymgymryd ag amrywiaeth o waith i sicrhau y parheir i ddarparu gwasanaeth post cyffredinol (gweler tudalen 19). Bydd hyn yn cynnwys:

- datblygu ymhellach drefn i fonitro perfformiad y Post Brenhinol yn ofalus, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu gwasanaeth cyffredinol, effeithlonrwydd, proffidioldeb a phrisiau;
- monitro'n barhaus pa mor fforddiadwy yw stampiau i ddefnyddwyr bregus;
- asesu ein dull gweithredu o ran y wasgfa ar faint elw; a
- gwerthuso'r costau a wynebir gan y Post Brenhinol gan y gofynion i hysbysu'r farchnad yn gyhoeddus am newidiadau i'w gynnyrch.

3.33 Yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Post hefyd, mae'n rhaid i ni gynnal asesiad o anghenion defnyddwyr o ran y gwasanaethau post cyn pen 18 mis ar ôl derbyn y cyfrifoldeb am reoleiddio'r post. Bydd ein hadolygiad o gwsmeriaid busnes a phreswyl yn cynnwys gwneud gwaith ymchwil defnyddwyr i sut mae defnyddwyr yn defnyddio gwasanaethau post a'r gwerth maent yn ei roi arno, a beth arall y gallai

gael ei werthfawrogi yn y dyfodol. Byddwn yn cynnal y rhan fwyaf o'r adolygiad hwn yn ystod 2012, gan gynnwys yr ymchwil defnyddwyr, ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid ac ymgynghoriad cyhoeddus. Byddwn yn cyhoeddi ein casgliadau erbyn mis Mawrth 2013.

### Asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd

3.34 Mae Ofcom yn cynhyrchu ymchwil helaeth am y gwasanaethau cyfathrebu a ddefnyddir gan ddinasyddion a defnyddwyr. Mae profiadau o'r gwasanaethau hynny'n amrywio rhwng pedair gwlad y DU, gyda chartrefi preswyl a busnesau bach mewn cymunedau gwledig yn wynebu heriau penodol, megis darpariaeth wael ar gyfer defnyddio ffonau symudol mewn rhai ardaloedd.

3.35 Yn 2012/13, byddwn yn asesu lefelau'r ddarpariaeth a chystadleuaeth ar gyfer gwasanaethau darlledu, telegyfathrebu a gwasanaethau post ar draws gwledydd y DU. Byddwn hefyd yn ceisio deall pam bod gwahaniaethau rhwng y gwledydd, ac yn edrych ar y ffordd y mae'r DU ddatganoledig ac awdurdodau lleol, yn ogystal â chymunedau eu hunain, yn gweithio i'w lleihau.

3.36 Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud yn unol â'n dyletswyddau eraill i sicrhau bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebu electronig ar gael ledled y DU a gwasanaeth post cyffredinol.

## Diben Strategol 4: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

3.37 Wrth i'r dirwedd cyfryngau barhau i esblygu, mae darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau yn dal yn rhan hanfodol o'n swyddogaeth. Rydym yn ystyried y fframwaith cyfredol ar gyfer hyn a gofynion yn y dyfodol ar gyfer rheoleiddio cynnwys.

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau** | • **Ystyried dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu rheoleiddio fideo ar alwad** |

### Ystyried dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu rheoleiddio fideo ar alwad

3.38 Byddwn yn parhau i adolygu ein dull rheoleiddio ehangach yng nghyswllt rheoleiddio cynnwys i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben a'i fod yn dal i wasanaethu buddiannau dinasyddion a defnyddwyr, a'i fod yn glir i randdeiliaid.

3.39 Rydym yn gweld nifer o sialensiau yn y maes hwn. Bydd newidiadau mewn technoleg, gan gynnwys gwasanaethau IPTV i'r farchnad dorfol yn y DU, yn herio'r strwythurau rheoleiddio presennol, a gafodd eu cynllunio gan fwyaf ar gyfer byd darlledu llinol. Byddwn yn ystyried sut y gallai dulliau rheoleiddio ar gyfer rheoleiddio cynnwys esblygu rhagor i aros yn addas i'r diben ac yn gymesur.

3.40 Ym mis Mawrth 2012, bydd dwy flynedd wedi mynd heibio ers i ATVOD (yr Awdurdod Teledu Ar Alwad) gael ei ddynodi gan Ofcom yn gyd-reoleiddiwr cynnwys golygyddol mewn gwasanaethau ar alwad. Yn unol â thelerau'r Dynodiad, mae'n rhaid i Ofcom adolygu'r Dynodiad. Byddwn yn cynnal yr adolygiad hwn yn ystod 2012/13; bydd yn

asesu effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau cyd-reoleiddio ar gyfer gwasanaethau ar alwad.

## Diben Strategol 5: Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd

3.41 Mae Ofcom wedi arwain neu gyfrannu at nifer o faterion polisi cyhoeddus ar gais y Senedd neu'r llywodraeth. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn parhau, pan fydd y Senedd yn dod o hyd i swyddogaeth wedi'i diffinio'n glir ar gyfer Ofcom. Yn ystod 2012/13, byddwn yn darparu cyngor cyson ar fesur lluosogrwydd y cyfryngau, ac yn gweithio gyda'r llywodraeth yng nghyswllt y ddarpariaeth band eang cyflym iawn sydd ar gael a mannau di-gyswllt symudol. Byddwn hefyd yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol yng nghyswllt torri hawlfraint ar-lein.

| | |
|---|---|
| Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd | • Cyngor cyson i'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd y cyfryngau a chyfrannu at Ymchwiliad Leveson<br>• Gweithio ar y cyd gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau digyswllt ffonau symudol<br>• Gweithredu darpariaethau Deddf Economi Ddigidol 2010 yn ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein |

### Cynghori'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd y cyfryngau a chyfrannu at Ymchwiliad Leveson

3.42 Ym mis Hydref 2011, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau, y Gemau Olympaidd a Chwaraeon i Ofcom ddarparu cyngor ar fesur lluosogrwydd ar draws y cyfryngau. Y cwestiynau penodol sydd wedi'u gofyn i ni yw:

a) Beth yw'r opsiynau ar gyfer mesur lluosogrwydd y cyfryngau ar draws llwyfannau? Beth ydych chi'n ei argymell yw'r dull gweithredu gorau?

b) Ydy hi'n ymarferol neu'n ddoeth gosod terfynau absoliwt ar gyfran y farchnad newyddion?

c) Beth allai ysgogi adolygiad o luosogrwydd yn niffyg cyfuno, sut gallai hyn gael ei fonitro a chan bwy?

d) A allai neu a ddylai fframwaith ar gyfer mesur lefelau lluosogrwydd gynnwys gwefannau ac, os felly, pa rai?

e) A ddylai neu sut y dylai gynnwys y BBC?

3.43 Rydym yn gweithio i ymateb i'r cais hwn ac roeddem wedi gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno sylwadau ar y cwestiynau uchod erbyn 18 Tachwedd 2011. Ein swyddogaeth ni yw gweithredu fel cynghorydd annibynnol i'r Llywodraeth, gan ystyried ein dyletswyddau, ein hymchwil a'n dadansoddiad.

3.44 Byddwn yn rhoi ein cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ac Ymchwiliad Leveson erbyn mis Mehefin 2012 a byddwn hefyd yn cyhoeddi'r cyngor hwn ar ein gwefan, pan fo'n bosibl. Ar ôl cyflwyno ein cyngor, rydym hefyd yn rhagweld y byddwn yn darparu cyngor ad-hoc cyson am fesur lluosogrwydd y cyfryngau i'r llywodraeth wrth iddi gynnal ei Hadolygiad Cyfathrebu yn ystod 2012/13. Yn ogystal, bydd Ofcom yn cyflawni'r swyddogaeth y bydd ei hangen ar Ymchwiliad Leveson i'w helpu gyda'i ystyriaethau.

## Gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau di-gyswllt symudol

3.45 Mae'r Llywodraeth wedi datgan ei nod o sicrhau y bydd gan y DU y rhwydweithiau band eang gorau yn Ewrop erbyn diwedd 2015, gyda 90% o eiddo â mynediad i fand eang cyflym iawn, a chyflymder o 2Mbit yr eiliad ar gael i bron bob cartref ledled y DU.

3.46 Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gosod targedau tebyg ac mae arian ychwanegol wedi'i sicrhau gan Lywodraeth yr Alban ac awdurdodau lleol yn yr Alban i helpu yn hyn o beth. Yng Ngogledd Iwerddon, mae prosiect buddsoddi gwerth £52m, dan arweiniad yr Adran Menter, Masnach a Buddsoddi, wedi'i gwblhau eisoes, sydd wedi darparu band eang cyflym iawn ffibr i dros 81% o gartrefi. Yn yr un modd, nod Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru yw darparu gwasanaethau 30Mb yr eiliad o leiaf i gartrefi a busnesau ledled Cymru.

3.47 Broadband Delivery UK (BDUK) sy'n gyfrifol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon am ddyrannu'r £530m o arian cyhoeddus y mae'r Llywodraeth wedi'i ddarparu i gefnogi cyflawni ei nodau ar gyfer band eang cyflym iawn. Mae BDUK hefyd yn gyfrifol am sefydlu fframwaith caffael a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i redeg caffaeliadau band eang cyflym iawn yn effeithlon er mwyn rhoi sylw i anghenion lleol penodol.

3.48 Mae Ofcom wedi chwarae rhan weithredol drwy gynghori'r Llywodraeth yn y meysydd hyn. Byddwn yn parhau i gynnig ein harbenigedd a'n cyngor i helpu'r Llywodraeth a gweinyddiaethau datganoledig i gyflawni'u hamcanion. Byddwn hefyd yn casglu ac yn cyhoeddi data i helpu'r Llywodraeth i feincnodi seilwaith band eang y DU yn erbyn gweddill Ewrop drwy 'Gerdyn Sgorio y Gorau yn Ewrop'.

3.49 Hefyd, yn ystod 2012/13, byddwn yn darparu cyngor i'r Llywodraeth ar ei Phrosiect Seilwaith Symudol (MIP) i fuddsoddi £150m mewn seilwaith newydd i wella'r ddarpariaeth symudol o amgylch eiddo a ffyrdd allweddol y DU lle mae'r ddarpariaeth honno'n wael neu heb fod ar gael o gwbl. Mae'r Llywodraeth yn disgwyl dechrau ei phroses caffael yng ngwanwyn 2012, a dyfarnu contractau erbyn diwedd y flwyddyn.

## Gweithredu darpariaethau torri hawlfraint ar-lein Deddf yr Economi Ddigidol 2010

3.50 Bydd Ofcom yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau dros weithredu nifer o ddarpariaethau dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2010 yng nghyswllt mesurau i fynd i'r afael â thorri hawlfraint ar-lein. Dan y Ddeddf hon, rhaid i'r gwaith o weithredu a rheoleiddio'r darpariaethau hyn gael ei osod allan mewn cod. Yn niffyg cod cymeradwy wedi'i lunio gan y diwydiant, mae gan Ofcom ddyletswydd i lunio cod yn unol â gofynion Deddf yr Economi Ddigidol, sy'n cynnwys gofyniad i sefydlu corff annibynnol i wrando ar apeliadau tanysgrifwyr yn erbyn adroddiadau o dorri hawlfraint ar-lein ymddangosiadol sy'n gysylltiedig â'u cyfrifon. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar dariff ar gyfer prosesu adroddiadau torri hawlfraint gan ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd.

3.51 Mae'n rhaid inni hefyd adrodd ar y lefelau o dorri hawlfraint ar-lein a amcangyfrifir, gyda'r adroddiad cyntaf yn berthnasol i'r chwarter llawn cyntaf ar ôl gweithredu. Wrth baratoi ar gyfer dyletswyddau adrodd Ofcom, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid

ynghylch sut y gallwn ganfod a chasglu gwybodaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â datblygu a hyrwyddo gwasanaethau cyfreithiol, mentrau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o hawlfraint a thorri hawlfraint ar-lein, a chamau gorfodi a gymerir gan berchnogion hawlfraint yn erbyn y rheini yr honnir eu bod yn torri'r hawlfraint.

## Rydym wedi gosod canlyniadau ar gyfer y blaenoriaethau hyn

3.52 Byddwn yn barnu llwyddiant ein gwaith i gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer 2012/13 yn erbyn y canlyniadau cadarnhaol yr ydym yn ceisio'u sicrhau i ddinasyddion a defnyddwyr.

3.53 Rydym wedi gosod canlyniadau ar gyfer pob un o’n blaenoriaethau, fel y dangosir yn Ffigur 2 isod. Byddwn yn asesu ein cynnydd tuag at gyflawni’r rhain ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, yn yr Adroddiad Blynyddol,

3.54 Rydym wedi rhannu ein canlyniadau yn ganlyniadau interim a therfynol:

- **Canlyniadau interim** – digwyddiadau yn y farchnad sy’n deillio o benderfyniad a gymerir gan Ofcom; er enghraifft galluogi trydydd partïon i gael mynediad at rwydwaith neu wasanaeth penodol. Mae’r rhain yn cyfrannu at gyflawni’r canlyniadau terfynol.

- **Canlyniadau terfynol -** mae’r rhain yn disgrifio’r buddion ehangach i ddinasyddion a defnyddwyr; er enghraifft, defnyddiwr yn gallu dewis rhwng amrywiaeth o gynigion adwerthu cystadleuol ac arloesol. Rydym yn bwriadu gwneud yr hyn sy’n rhesymol ei wneud i farnu ein llwyddiant o ran sicrhau canlyniadau terfynol, ar yr un pryd â chydnabod y bydd datblygiadau yn y farchnad ehangach hefyd yn dylanwadu ar y canlyniadau hyn.

## Ffigur 2: Canlyniadau a blaenoriaethau terfynol Cynllun Blynyddol2012/13

| | BLAENORIAETHAU STRATEGOL | CANLYNIADAU INTERIM | CANLYNIADAU TERFYNOL |
|---|---|---|---|
| **Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy** | • Sicrhau cystadleuaeth effeithiol yn y marchnadoedd ffôn llais a chysylltedd busnes, a diogelu defnyddwyr terfynol<br>• Hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn | • Fframwaith diwygiedig ar gyfer mynediad cyfanwerthu i ddefnyddwyr cysylltedd busnes (erbyn diwedd 2012) a defnyddwyr ffôn llais (erbyn Medi 2013) gan gynnwys atebion a rheolaethau newid pan fo'n briodol<br>• Mewnbwn cyfanwerthu sy'n diwallu gofynion darparwyr cyfathrebu ac sy'n cefnogi buddsoddiad NGA yn y 'Traean Olaf' | • Dewis ac arloesedd wedi'i gynnal yn y farchnad telegyfathrebu sefydlog ar gyfer defnyddwyr busnes<br>• Mwy o ddewis mewn darpariaeth gwasanaethau band eang cyflym iawn |
| **Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon** | • Arwerthiannau bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz<br>• Clirio sbectrwm yn amserol er mwyn gallu rhoi dyfarniadau newydd, gan liniaru materion yn ymwneud â chydfodoli yr un pryd<br>• Cyflawni gwarant sbectrwm y llywodraeth ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd 2012 Llundain | • Dyfarnu sbectrwm erbyn 2012/13<br>• Gwasanaethau di-wifr newydd yn gallu cael eu defnyddio ee band eang symudol y genhedlaeth nesaf, gyda mesurau cyd-fodoli effeithiol ar waith erbyn diwedd 2012<br>• Popeth angenrheidiol er mwyn cyflawni cyfrifoldebau Ofcom ar gyfer y Gemau ar waith ac wedi'u profi | • Cyflwyno gwasanaethau symudol 4G yn ystod 2013/14 ac argaeledd eang erbyn 2015<br>• Rheoli pob risg clirio ac ymyrraeth yn effeithiol gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr yn barhaus<br>• Llwyddo i gyflawni gwarant sbectrwm y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd, gan amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr neu wylwyr |
| **Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr** | • Hyrwyddo dewis effeithiol i ddefnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth glir am wasanaeth, pris ac ansawdd ar gael<br>• Datblygu a gweithredu polisïau a fydd yn golygu ei bod yn haws i ddefnyddwyr newid o un Darparwr Gwasanaethau Cyfathrebu i un arall<br>• Sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post<br>• Asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd | • Darparu rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr ar gyflymder band eang ar gyfer rhwydweithiau llinell sefydlog a symudol, ac ar berfformiad rheoli traffig<br>• Cwblhau adolygiad o'r prosesau newid ar gyfer y rhwydwaith Openreach (oddeutu diwedd 2012). Adolygu'r broses newid ar gyfer rhwydweithiau cebl ac adolygu'r prosesau newid ar gyfer gwasanaethau symudol.<br>• Fframwaith rheoleiddio economaidd newydd ar gyfer Post a dadansoddiad o anghenion defnyddwyr ar gyfer gwasanaethau post erbyn gwanwyn 2013<br>• Cyhoeddi adroddiad ar ddaearyddiaeth economaidd erbyn hydref 2012 | • Mae defnyddwyr yn teimlo bod modd iddynt wneud dewisiadau mwy gwybodus am y gwasanaethau cyfathrebu gwahanol sydd ar gael iddynt<br>• Mae'n haws a cheir llai o rwystrau i ddefnyddwyr sy'n dewis newid rhwng darparwyr cyfathrebu<br>• Gwasanaeth post cyffredinol cynaliadwy sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid busnes a phreswyl<br>• Sefydliadau datganoledig a gwleidyddol eraill yn cael gwell gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau cyfathrebu yn y gwledydd |
| **Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau** | • Ystyried dulliau gweithredu ar gyfer rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol, gan gynnwys adolygu rheoleiddio fideo ar alwad | • Yr adolygiad o fideo ar alwad wedi'i gwblhau erbyn haf 2012 | • Fframwaith effeithiol ar gyfer rheoleiddio yn y dyfodol o fewn cwmpas deddfwriaeth bresennol a chyfrannu at y Llywodraeth fel sy'n briodol ynghylch deddfwriaeth yn y dyfodol |
| **Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd** | • Cyngor cyson i'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd y cyfryngau a chyfrannu at Ymchwiliad Leveson<br>• Gweithio ar y cyd gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau digyswllt ffonau symudol<br>• Gweithredu darpariaethau Deddf yr Economi Ddigidol 2010 yn ymwneud â thorri hawlfraint ar-lein | • Sicrhau bod y Senedd, llywodraeth ac Ymchwiliad Leveson yn cael tystiolaeth briodol i gyfrannu at ddadl am luosogrwydd/perchnogaeth cyfryngau<br>• Darparu'r cyngor technegol a rheoleiddiol priodol mae ei angen ar y Llywodraeth i gyflawni ei nod ar gyfer darpariaeth symudol a band eang cyflym iawn<br>• Gweithredu fframwaith OCI hyfyw a theg ar gyfer dinasyddion, defnyddwyr a'r diwydiant | • Os bydd y Senedd o'r farn ei fod yn briodol, rhoi mesurau digonol ar waith i sicrhau democratiaeth seneddol wybodus yn y DU, sy'n rhydd rhag dylanwad gormodol<br>• Defnyddwyr yn y 'Traean Olaf' yn gallu elwa ar fand eang cyflym iawn a gwelliannau yn narpariaeth gwasanaethau symudol erbyn 2015<br>• Cyfrannu at leihau lefelau torri hawlfraint ar-lein ar sail technolegau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr |

## Adran 4

# Meysydd gwaith ar gyfer 2012/13

4.1 Yn ogystal â'n blaenoriaethau, rydym yn bwriadu gweithio ar nifer o feysydd pwysig eraill yn ystod 2012/13.

### Ffigur 3: Meysydd gwaith Ofcom ar gyfer 2012/13

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd |
|---|---|---|---|---|
| • Cwblhau adolygiad o fframwaith rheoleiddio ar gyfer post<br>• Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau teledu drwy dalu<br>• Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telathrebu<br>• Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol<br>• Cyfrannu at gysondeb rheoleiddio cyfathrebu yn Ewrop drwy BEREC ac ERGP | • Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r galw am sbectrwm yn y dyfodol<br>• Galluogi cyfleoedd sbectrwm gofod gwyn<br>• Adolygu'r sbectrwm a ddefnyddir gan wasanaethau dolen sefydlog<br>• Prisio anogaeth weinyddol mewn darlledu<br>• Cynrychioli buddiannau'r DU yn weithredol ar bwyllgorau sbectrwm rhyngwladol<br>• Gweithredu mesurau i sicrhau bod ystodau rhifau daearyddol ar gael i ddarparwyr cyfathrebu | • Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw<br>• Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fydd yn mynd i'r afael â 'mannau digyswllt' ffonau symudol<br>• Monitro dulliau gweithredu ar gyfer rheoli traffig i sicrhau arloesedd i ddefnyddwyr<br>• Deall pwysigrwydd gwybodaeth defnyddwyr ar-lein a'r sialensiau i ddatblygu amgylchedd ar-lein yr ymddiriedir ynddo | • Chwarae rhan weithredol yn UKCCIS a chyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd mewn perthynas ag amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw<br>• Adolygu trefniadau rheoleiddio cynnwys 'oedolion' a 'sgwrsio oedolion' ar wasanaethau darlledu llinol<br>• Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU, gan gynnwys rownd arall o drwyddedu radio cymunedol a ffocws parhaus ar orfodi effeithiol<br>• Ail-drwyddedu Channel 4<br>• Adolygu trefniadau ar gyfer darllediadau pleidiol wleidyddol ac etholiadau pleidiau | • Cyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth<br>• Trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd<br>• Cwblhau Newid i'r Digidol a chefnogi rhaglen radio digidol y llywodraeth<br>• Cyrraedd targedau lleihau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13 |

## Diben Strategol 1: Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | • Cwblhau adolygiad o fframwaith rheoleiddio ar gyfer post<br>• Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau teledu drwy dalu<br>• Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telathrebu<br>• Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol<br>• Cyfrannu at gysondeb rheoleiddio cyfathrebu yn Ewrop drwy BEREC ac ERGP |
|---|---|

### Cwblhau adolygiad o fframwaith rheoleiddio ar gyfer post

4.2 Mae Ofcom wedi ymgynghori ar ddull gweithredu newydd ar gyfer rheoleiddio post yn economaidd. Mae'r dull gweithredu hwn yn cynnig dileu rheolaethau prisiau drwyddi draw, ynghyd â dulliau diogelu i ddiogelu defnyddwyr agored i niwed. Mae'r dulliau diogelu arfaethedig yn cynnwys pennu uchafswm pris ar gyfer stampiau ail ddosbarth, ac amddiffyn gallu gweithredwyr mynediad effeithlon i gystadlu'n effeithiol yn erbyn y Post Brenhinol. Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi datganiad am ein fframwaith rheoleiddio yn ystod gwanwyn 2012.

4.3 Yn ystod 2012/13 byddwn hefyd yn gweithredu trefn monitro i fod yn sail i'r fframwaith rheoleiddio newydd. Byddwn yn monitro perfformiad o ran cyflawni gwasanaeth cyffredinol, ac effeithlonrwydd, proffidioldeb a phrisiau'r Post Brenhinol. Byddwn hefyd yn asesu a ddylid bwrw ymlaen â'r dull gweithredu presennol i wasgu elw yn y dyfodol, ynteu a fyddai dull gweithredu ar sail cost ychwanegol tymor hir y Post Brenhinol yn fwy addas. Bydd ein gwaith hefyd yn ystyried pa mor fforddiadwy yw stampiau i gwsmeriaid agored i niwed.

### Sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau teledu drwy dalu

4.4 Ym mis Mawrth 2010 roeddem wedi cyhoeddi datganiad yn nodi ein penderfyniad y dylid cynnig SkySports 1 a 2 (safonol a manylder uwch) i fanwerthwyr ar lwyfannau ar wahân i Sky, am brisiau a bennir gan Ofcom ar gyfer y gwasanaeth manylder safonol. Apeliodd Sky a phartïon eraill yn erbyn y penderfyniad hwn i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth.

4.5 Yn ystod 2012/13, byddwn yn parhau i fonitro nifer y defnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau newydd yn deillio o'n penderfyniad. Byddwn hefyd yn ystyried pa waith arall, os o gwbl, allai fod yn briodol i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau teledu drwy dalu, yn dilyn canlyniad penderfyniad y Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth.

4.6 Roeddem hefyd wedi gwneud cyfeiriad ymchwiliad marchnad i'r Comisiwn Cystadleuaeth ym mis Awst 2010 dan Ddeddf Menter 2002 ynghylch ffilmiau teledu drwy dalu, yn enwedig tanysgrifiad gwasanaethau fideo ar-alw. Mae'r Comisiwn Cystadleuaeth nawr yn cynnal yr ymchwiliad hwn, a byddwn yn dal i gyfrannu at ei ymchwiliad, yn ôl y galw, dros y flwyddyn nesaf.

### Adolygu'r fframwaith ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol mewn telathrebu

4.7 Yn 2012/13 byddwn yn adolygu ein defnydd o ddyletswyddau gogwydd costau mewn marchnadoedd ar gyfer cyfathrebu electronig (telathrebu). Mae gogwydd cost yn un o nifer o atebion gallwn eu rhoi ar ddarparwyr telathrebu sydd â phŵer sylweddol yn y farchnad. Rydym yn bwriadu cynhyrchu canllawiau newydd ar sut rydym yn disgwyl gorfodi gogwydd costau yn ymarferol.

4.8 Fel rhan o'r gwaith hwn rydym hefyd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol. Ar hyn o bryd mae BT a KCOM yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ariannol gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth i Ofcom yn breifat. Rydym yn adolygu'r gofynion ar ddarparwyr telathrebu i ddarparu'r wybodaeth hon.

4.9 Rydym yn bwriadu ymgynghori yn 2012 ynghylch canllawiau gogwydd cost newydd a chynigion ar gyfer fframwaith newydd ar gyfer adrodd ariannol rheoleiddiol. Ar ôl hyn, byddwn yn gweithredu ein fframwaith newydd, a allai ofyn am newidiadau i'r systemau a'r prosesau adrodd ariannol rheoleiddiol cyfredol.

### Gweithredu fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol

4.10 Mae galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol yn golygu galwadau i rifau 03, 05, 070/076, 080, 0845, 0870, 083/4, 0871, 09, 116 a 188. Bydd defnyddwyr yn

defnyddio'r rhifau hyn i ffonio busnesau ac asiantaethau llywodraeth er mwyn cael gwybodaeth, talu am wasanaethau a phleidleisio ar raglenni radio a theledu. Yn 2010/11 roeddem wedi cynnig defnyddio dull gweithredu symlach ar gyfer darparu a rheoleiddio galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, gan gynnwys edrych ar ystodau rhifau symlach a ffioedd mwy safonol. Rydym yn cyhoeddi cynnig manwl ar gyfer rheoleiddio yn gynnar yn ystod 2012 a byddwn yn parhau â'r gwaith hwn yn y flwyddyn ariannol nesaf, yn amodol ar ymgynghoriad.

### Cyfrannu at gysondeb rheoleiddio cyfathrebu yn Ewrop drwy BEREC ac ERGP

4.11 Mae'r Corff ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebu Electronig Ewrop (BEREC) yn Fwrdd sy'n cynnwys penaethiaid y 27 awdurdod rheoleiddio cenedlaethol, gan gynnwys Ofcom. Ei brif swyddogaethau yw cyfrannu at hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd cyfathrebu Ewropeaidd a sicrhau bod fframwaith rheoleiddio'r UE yn cael ei weithredu'n gyson. Mae BEREC hefyd yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu cynigion polisi Ewropeaidd. Rhaid i'r Comisiwn Ewropeaidd ofyn am fewnbwn BEREC ar Argymhellion a Phenderfyniadau drafft, a gall Senedd Ewrop a Chyngor y Gweinidogion ofyn am gyngor BEREC.

4.12 Mae Ofcom yn aelod gweithredol o BEREC, ac Ed Richards fydd Dirprwy Gadeirydd BEREC yn ystod 2012. Drwy weithio'n agos gyda'n cymheiriaid Ewropeaidd, rydym yn ceisio gwneud cyfraniad sylweddol at raglen waith ac allbwn y corff. Yn ystod 2012/13 byddwn yn parhau i wneud hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar y materion canlynol:

- darparu barn ar yr Argymhellion sydd gan y Comisiwn ar y gweill ar fethodoleg costio a pheidio â gwahaniaethu;
- datblygu cyfarwyddyd ar weithredu'r rheoliad crwydro;
- defnyddio atebion rheoleiddio yn gyson drwy adolygu a diweddaru sefyllfaoedd cyffredin sydd eisoes yn bodoli i ystyried datblygiadau technolegol; a
- dadansoddiad pellach o faterion sy'n ymwneud â niwtraliaeth net.

## Diben Strategol 2: Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

| | |
|---|---|
| Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | • Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r galw am sbectrwm yn y dyfodol<br>• Cynnydd ar ryddhau band sbectrwm 600 MHz<br>• Galluogi cyfleoedd sbectrwm gofod gwyn<br>• Gweithredu mesurau i sicrhau bod ystodau rhifau daearyddol ar gael<br>• Cyflwyno codi ffioedd am rifau ffôn daearyddol mewn ardaloedd peilot penodol<br>• Adolygu'r sbectrwm a ddefnyddir gan wasanaethau dolen sefydlog<br>• Cynrychioli buddiannau'r DU yn weithredol ar bwyllgorau sbectrwm rhyngwladol |

### Datblygu rhaglen gwaith polisi sbectrwm sy'n edrych tua'r dyfodol, gan ystyried datblygiadau yn y farchnad a'r galw am sbectrwm yn y dyfodol

4.13 Wrth reoli'r sbectrwm radio byddwn yn dal i fynd ar drywydd dull gweithredu cytbwys sy'n defnyddio'r offer sydd gennym yn briodol – mecanweithiau marchnad ac ymyriadau rheoleiddio – er mwyn sicrhau bod y sbectrwm radio'n cael ei ddefnyddio

yn y ffordd orau. Yn unol â'n dyletswyddau statudol a'n hegwyddorion rheoleiddio, rydym yn ceisio dileu cyfyngiadau diangen yng nghyswllt defnyddio a neilltuo sbectrwm pan rydym o'r farn bod hyn er budd gorau dinasyddion a defnyddwyr.

4.14 Yn ystod 2012/13 byddwn yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r galw tebygol am sbectrwm y tu hwnt i'r rhyddhau sydd ar y gweill ar hyn o bryd, gan edrych ar y tymor hirach o ran y datblygiadau a fydd yn effeithio ar ddefnyddio sbectrwm.

4.15 Un enghraifft allweddol o'r math hwn o weithgarwch yw'r prosiect strategaeth Amledd Uchel Iawn (UHF). Dechreuwyd y gwaith hwn drwy gais am fewnbwn a gyhoeddwyd gennym ar 20 Ebrill 2011. Yn y ddogfen hon roeddem yn estyn gwahoddiad i randdeiliaid gyflwyno eu safbwyntiau ar y galw tymor hir tebygol am fandiau sbectrwm UHF IV a V gan wasanaethau gwahanol, gan nodi bod nifer o ddatblygiadau'n dechrau codi cwestiynau am gydbwysedd tymor hir defnyddio'r sbectrwm UHF. Rydym o'r farn ei bod yn bwysig datblygu fframwaith ar gyfer dyfodol tymor hir y bandiau sbectrwm gwerthfawr hyn, er mwyn cyfrannu at benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch y sbectrwm hwn.

4.16 Roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer y fframwaith hwn ym mis Mawrth 2012. Yn ystod 2012/13 byddwn yn mynd â'r gwaith hwn rhagddo ac yn cyhoeddi datganiad, a fydd yn nodi rhai o'r camau gweithredu a'r ystyriaethau allweddol ar gyfer y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar ymgysylltu rhyngwladol a pholisïau penodol.

4.17 Rydym wedi tynnu ein maes gwaith i ddatblygu rhyddhau sbectrwm 600 MHz o'r Cynllun Blynyddol. Bydd hyd a lled a graddfa rhagor o waith i ddatblygu rhyddhau sbectrwm 600 MHz yn ystod 2012/13 yn dibynnu ar ganlyniad ein hadolygiad o'r strategaeth UHF.

## Galluogi cyfleoedd sbectrwm gofod gwyn

4.18 Gofod gwyn yw'r enw a roddir i rannau o sbectrwm nad ydynt yn cael eu defnyddio mewn lleoliad ac ar adegau penodol. Ym mis Medi 2011, cyhoeddodd Ofcom ganlyniadau ein hymgynghoriad ar weithredu dull sy'n seiliedig ar ddaearleoliad er mwyn galluogi mynediad gofod gwyn ar sail caniatâd heb drwydded ym mand teledu UHF.

4.19 Yn ystod 2012/13, rydym yn bwriadu parhau â'n gwaith ar alluogi dyfeisiau gofod gwyn:

- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i lunio'r gofynion technegol terfynol er mwyn sicrhau nad yw dyfeisiau gofod gwyn yn achosi ymyrraeth niweidiol i'r defnyddwyr hynny sydd eisoes â thrwydded. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i roi rheoliadau angenrheidiol ar waith i ddyfeisiau gofod gwyn a ganiateir heb drwydded.

- Byddwn yn dal i weithio ar y materion er mwyn pennu darparwyr cronfa ddata daearleoliad, gan gynnwys rhoi mecanwaith ar waith i alluogi bod data defnyddwyr sydd eisoes â thrwydded i fod ar gael i ddarparwyr cronfa ddata.

- Byddwn hefyd yn dal i ymwneud yn rhagweithiol â chyrff rheoleiddio Ewropeaidd i ddatblygu dull gweithredu cyffredin er mwyn galluogi mynediad gofod gwyn.

4.20 Ar sail ein harsylwadau presennol ar weithgarwch y diwydiant a safoni, ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y bydd dyfeisiau gofod gwyn mewn sefyllfa i gael eu defnyddio o 2014 ymlaen.

## Adolygu’r sbectrwm a ddefnyddir gan wasanaethau dolen sefydlog

4.21 Yn dilyn ein hymgynghoriad ynghylch y fframwaith ar gyfer prisio sbectrwm, roeddem wedi cyhoeddi datganiad yn amlinellu’r gefnogaeth sylweddol a gafwyd ar gyfer adolygu'r ffioedd a godir ar gyfer trwyddedau yn y bandiau sbectrwm a ddefnyddir gan ddolenni sefydlog. Fel rhagflaenydd i adolygu ffioedd, ac er mwyn caniatáu i ni ystyried amrywiaeth o faterion cysylltiedig ynghylch sut rydym yn rheoli’r sbectrwm hwn, roeddem wedi dechrau adolygiad o’r bandiau sbectrwm a ddefnyddir gan ddolenni sefydlog.

4.22 Fel rhan o’r ymarfer hwn, roeddem wedi comisiynu Aegis Systems Ltd i adolygu’r galw posibl am y sbectrwm hwn yn y dyfodol. Rydym nawr yn chwilio am safbwyntiau ar y canfyddiadau hyn, yn ogystal â safbwyntiau ar y polisïau rheoli sbectrwm y gallem eu mabwysiadu yn y bandiau hyn, fel rhan o Alwad ffurfiol am Fewnbwn a ddaw i ben ddiwedd mis Ebrill. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ymgynghoriad cychwynnol a fydd yn rhoi’r dewisiadau ar gyfer newid, a dechrau’r adolygiad o ffioedd, yn nes ymlaen eleni.

## Prisio anogaeth weinyddol mewn darlledu

4.23 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrwydd i randdeiliaid, ar lefelau ffioedd sbectrwm yn yr un modd â gydag agweddau eraill ar reoleiddio. Bydd Ofcom yn cynnal gwaith dadansoddi i’w alluogi i ymgynghori ynghylch gweithredu prisio anogaeth weinyddol (AIP) i asesu lefel bosibl ffioedd, effaith bosibl y ffioedd hyn ar allbwn ddarlledu a’r amserlen briodol ar gyfer eu cyflwyno. Byddem yn annog y sector darlledu i ymgysylltu'n llawn â'r broses hon.

## Cynrychioli buddiannau’r DU yn weithredol ar bwyllgorau sbectrwm rhyngwladol

4.24 Mae Ofcom wedi cael cyfarwyddyd gan y Llywodraeth i gynrychioli’r DU ar bwyllgorau sbectrwm yr UE, y Gynhadledd Ewropeaidd ar Weinyddiaethau Post a Thelegyfathrebu (CEPT) a’r Undeb Telegyfathrebu Rhyngwladol (ITU), a byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y fforymau hyn yn ystod 2012/13. Yn yr UE byddwn yn cyfrannu at raglen waith y Grŵp Polisi Sbectrwm Radio ar gyfer 2012/13 ac at weithgareddau yn y Pwyllgor Sbectrwm Radio, sy’n gallu arwain at Benderfyniadau yn y Comisiwn Ewropeaidd sy’n berthnasol i’r DU. Byddwn hefyd yn goruchwylio gweithredu’r Rhaglen Polisi Sbectrwm Radio Ewropeaidd sydd newydd gael ei mabwysiadu, gan gynnwys cydlynu cyfraniadau’r DU at restr eiddo sbectrwm Ewropeaidd, a fydd yn ceisio sicrhau gwell dealltwriaeth o sut caiff sbectrwm ei ddefnyddio ar hyn o bryd a rhagweld y galw am sbectrwm ar draws Ewrop yn y dyfodol.

4.25 Fel rhan o’r ITU a CEPT, byddwn yn asesu canlyniad Cynhadledd Radio’r Byd eleni, ac yn dechrau paratoadau’r DU ar gyfer y gynhadledd nesaf, yn 2015, a fydd yn mynd i’r afael â materion sy’n hollbwysig i ddatblygu gwasanaethau di-wifr yn y DU. Byddwn yn ceisio cymryd rhan weithredol yn yr holl drafodaethau rhyngwladol perthnasol, gan gynnwys ceisio cadeiryddiaeth grwpiau rhyngwladol penodol pan fydd hyn yn cyfrannu at gyflawni nodau polisi sbectrwm y DU.

### Gweithredu mesurau i sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael i'w dyrannu i ddarparwyr cyfathrebu

4.26 Mae rhifau daearyddol yn rhifau ffôn llinell sefydlog sy'n dechrau â 01 a 02. Ofcom sy'n gyfrifol am weinyddu'r rhifau hyn ac am sicrhau bod digon o rifau ar gael i ddarparwyr cyfathrebu er mwyn sicrhau bod gan ddefnyddwyr ddewis eang o wasanaethau.

4.27 Yn dilyn ymgynghoriadau ym mis Tachwedd 2010 ac ym mis Medi 2011, roeddem wedi cyhoeddi trydydd ymgynghoriad ynghylch ein cynigion ym mis Mawrth 2012, a oedd wedi'i ddylunio i annog darparwyr cyfathrebu i ddefnyddio rhifau'n effeithlon, a thrwy hynny sicrhau bod rhifau daearyddol ar gael i'w dyrannu yn holl godau ardal y DU yn y dyfodol.

4.28 Mae'r ymgynghoriad pellach yn:

- Cynnig dyddiad penodol sef 1 Tachwedd 2012 pan fydd darparwyr cyfathrebu yn cau deialu lleol yng nghod ardal Bournemouth (01202);
- Cwblhau'r cynnig i godi ffi ar ddarparwyr cyfathrebu am rifau daearyddol sy'n cael eu dyrannu iddynt mewn cynllun peilot sydd ar waith mewn oddeutu 30 ardal gyda'r nifer isaf o flociau rhif ar ôl i'w dyrannu. Mae hefyd yn ymgynghori ynghylch y trefniadau manwl ar gyfer gwneud hyn, gan gynnwys y trefniadau gweinyddol a'r offeryn cyfreithiol;
- Cwblhau'r trefniadau i ddyrannu nifer benodol o flociau rhif llai i ddarparwyr cyfathrebu (100 yn hytrach na 1,000 o rifau), i ddechrau mewn 11 o ardaloedd sydd â phoblogaethau bach; ac
- Ymgynghori ar newidiadau i Amod Cyffredinol 17 a'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol a fyddai'n rhoi'r mesurau uchod ar waith.

4.29 Ar ôl adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad ar ein cynnig i gau deialu lleol yng nghod ardal Bournemouth (01202) yn y chwarter cyntaf a datganiad am weddill y cynigion yn yr ail chwarter.

4.30 Ar wahân, rydym hefyd yn cynnal adolygiad o'n proses weinyddol ar gyfer dyrannu rhifau daearyddol i ddarparwyr cyfathrebu, gyda golwg ar gryfhau'r broses hon. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn ystod ail chwarter 2012 yn nodi ein cynigion i gyflwyno cam cadw rhif i'r broses dyrannu a newid yr wybodaeth byddwn yn gofyn amdani ar y ffurflen gais rhifo.

## Diben Strategol 3: Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr

**Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr**

- Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw
- Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fydd yn mynd i'r afael â 'mannau digyswllt' ffonau symudol
- Monitro dulliau gweithredu ar gyfer rheoli traffig i sicrhau arloesedd i ddefnyddwyr
- Deall pwysigrwydd gwybodaeth defnyddwyr ar-lein a'r sialensiau i ddatblygu amgylchedd ar-lein yr ymddiriedir ynddo

## Sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr â nam ar eu clyw

4.31 Mae gan Ofcom ddyletswydd i ystyried anghenion defnyddwyr hŷn ac anabl. Yng nghyd-destun y ddyletswydd hon, rydym wedi bod yn adolygu’r ddarpariaeth bresennol a gweithredu gwasanaethau cyfnewid yn y DU. Mae gwasanaethau cyfnewid yn helpu defnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a/neu eu lleferydd i wneud a derbyn galwadau ffôn. Mae Gorchymyn Gwasanaethau Cyffredinol 2003 (a osodwyd gan y llywodraeth) yn mynnu ein bod yn sicrhau bod un neu fwy o wasanaethau cyfnewid testun yn cael eu darparu. Ar hyn o bryd mae BT yn gweithredu gwasanaeth cyfnewid testun ac mae gofyn i bob darparwr telathrebu ddarparu mynediad i'r gwasanaeth hwn i'w cwsmeriaid sydd â nam ar eu clyw a/neu eu lleferydd.

4.32 Mae’r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyffredinol a ddiwygiwyd yn ddiweddar (sy’n cael ei gosod ar lefel Ewropeaidd ac a ddaeth i rym ym mis Mai 2011)[3] yn rhoi'r pŵer i awdurdodau cenedlaethol, pan fo’n briodol, orfodi gofynion ar ddarparwyr i sicrhau bod defnyddwyr terfynol anabl yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfathrebu electronig sy’n gyfystyr i’r rheini sy’n cael eu mwynhau gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr terfynol, ac elwa o’r dewis o ddarparwyr a gwasanaethau sydd ar gael.

4.33 Ym mis Gorffennaf 2011 roeddem wedi cyhoeddi ymgynghoriad a oedd yn cynnig gwelliannau i’r gwasanaeth cyfnewid testun cyfredol, y cyfeirir ato fel Cyfnewid Testun y Genhedlaeth Nesaf, er mwyn i sgyrsiau lifo’n fwy naturiol ac er mwyn gallu ei ddefnyddio mewn ffyrdd gwahanol yn ôl anghenion defnyddwyr. Roeddem hefyd wedi ystyried yr achos dros gyflwyno gwasanaeth cyfnewid fideo ar gyfer defnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain.

4.34 Dyma’r adolygiad sylweddol cyntaf o wasanaethau cyfnewid y mae Ofcom wedi’i gynnal ers iddo ddod i fodolaeth yn 2003, er ein bod wedi comisiynu nifer o astudiaethau, sydd wedi helpu i gyfrannu at y ddadl[4].

4.35 Ar ôl ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad mis Gorffennaf 2011, rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen arall yng ngwanwyn neu ddechrau haf 2012, a fydd yn cynnwys cwestiynau ar weithredu gwelliannau i gyfnewid testun, a fydd wedyn yn cael eu datblygu yn 2012/13. Byddwn hefyd yn gosod ein camau nesaf ar gyfnewid fideo, yng ngoleuni'r ymatebion a geir i'r ymgynghoriad a datblygiadau eraill. Byddwn yn parhau i weithio gyda’r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon drwy gydol y flwyddyn ar y materion hyn.

## Parhau i hyrwyddo buddsoddiad a fyddai’n lleihau 'mannau di-gyswllt' symudol

4.36 Mae mannau di-gyswllt symudol yn dal i fod yn broblem sylweddol i ddefnyddwyr a busnesau, yn enwedig y rheini mewn ardaloedd gwledig a lled-wledig. Ar ben ein gwaith yn cefnogi’r llywodraeth i gyflawni’r Prosiect Seilwaith Symudol (MIP) sy’n

---

[3] http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2009:337:0011:0036:EN:PDF

[4] Mae astudiaethau technegol wedi cael eu gwneud ar ran Ofcom, gan gynnwys astudiaeth gan y City Universityar “Feasibility of AdditionalTelephoneRelay Services” 2006 ac estyniad yn 2008, sydd ar gael ynhttp://stakeholders.ofcom.org.uk/market-data-research/telecoms-research/relayservices/ a’r astudiaeth ganPlumyn 2009 o’r enw “Voicetelephonyservicesfordeafpeople”.

gwella darpariaeth symudol (gweler paragraff 3.49), byddwn yn ystyried pa fesurau eraill mae eu hangen er mwyn mynd i'r afael â mannau di-gyswllt symudol ar sail y mecanweithiau rheoleiddio sydd gennym.

4.37 Mae'r hyn sy'n achosi mannau di-gyswllt symudol yn lleol ac yn gymhleth iawn; nid oes un peth sy'n cysylltu'r holl broblemau darpariaeth, ac felly nid oes un ateb safonol. Byddwn yn parhau i asesu'r materion hyn yn 2012/13 a darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ar draws gwahanol fathau o fannau di-gyswllt symudol. Byddwn yn sicrhau bod y dadansoddiad hwn yn plethu â'n gwaith gyda'r MIP, i sicrhau gyda'n gilydd, ein bod yn defnyddio agwedd gyfannol er mwyn mynd i'r afael â mannau di-gyswllt symudol.

4.38 Byddwn hefyd yn parhau i archwilio posibilrwydd hwyluso darpariaeth ar y rhwydwaith rheilffyrdd er mwyn penderfynu sut mae modd gwella darpariaeth i ddefnyddwyr y DU wrth iddynt deithio. Mae mannau di-gyswllt yn effeithio ar ddefnyddwyr busnes yn benodol yn y maes hwn. Fel rhan o hyn byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid yn y sectorau cyfathrebu a rheilffyrdd er mwyn chwilio am ffyrdd i wella darpariaeth symudol ar y rhwydwaith rheilffyrdd.

## Monitro dulliau gweithredu ar gyfer rheoli traffig i sicrhau arloesedd i ddefnyddwyr

4.39 Yn y cyhoeddiad *Ofcom's Approach to Net Neutrality* ym mis Tachwedd 2011, roeddem wedi gosod ein sefyllfa o ran niwtraliaeth net a rheoli traffig. Yn benodol, roeddem wedi rhoi ein safbwyntiau ar lefel yr wybodaeth i ddefnyddwyr mae arnom eisiau gweld y farchnad yn ei darparu, a'r amgylchiadau posibl a allai gyfiawnhau datblygu ansawdd gwasanaeth sylfaenol. Rydym wedi ymrwymo i gynnal rhagor o ymchwil ar wybodaeth i ddefnyddwyr, gan feddwl am y cydbwysedd rhwng y manteision i ddefnyddwyr o gael y math iawn o wybodaeth ar ffurf sydd wedi'i thargedu ac yn glir, a'r risgiau o orlwytho defnyddwyr â gormod o wybodaeth, gan arwain at ddryswch i ddefnyddwyr. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil ar ddarparu mynediad rhyngrwyd 'ymdrechion gorau'[5].

4.40 Byddwn yn monitro'r cynnydd, ac yn adolygu posibilrwydd camu i mewn yn fwy ffurfiol mewn perthynas â'r materion rydym wedi'u canfod. Byddwn, yn benodol, yn ceisio monitro cynnydd fel rhan o'n gwaith parhaus, yng nghyd-destun ein dyletswydd adrodd ar seilwaith, i fonitro arferion rheoli traffig. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein diweddariad nesaf ar y gwaith hwn yn nes ymlaen yn 2012.

4.41 Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i adnabod datblygiadau yn y farchnad a allai lesteirio neu gefnogi cydfodolaeth gwasanaethau wedi'u rheoli a rhyngrwyd 'ymdrechion gorau'. Byddwn yn ystyried yr ymchwil a'r ymgysylltu hwn wrth asesu a oes angen unrhyw gamau rheoleiddio pellach. Byddwn yn parhau i ymgysylltu yn y ddadl Ewropeaidd a chyfrannu at waith parhaus BEREC ar dryloywder, gwahaniaethu, ansawdd gwasanaeth a rhyngysylltu IP.

## Deall pwysigrwydd gwybodaeth defnyddwyr ar-lein a'r sialensiau i ddatblygu amgylchedd ar-lein yr ymddiriedir ynddo

[5] Mae hyn yn arwain at 'ryngrwyd agored' gyda dim gwasanaethau penodol yn cael eu llesteirio neu eu rhwystro, er efallai y bydd angen rheoli'r rhain yn ystod cyfnodau prysur

4.42 Mae'r twf parhaus mewn marchnadoedd hysbysebu a chynnwys ar-lein yn dibynnu'n rhannol ar gynnal a chadw amgylchedd diogel ac yr ymddiriedir ynddo ar gyfer data defnyddwyr. Byddwn yn monitro datblygiad marchnadoedd data ar-lein, a'u swyddogaeth i gefnogi buddsoddi mewn cynnwys. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried buddiannau defnyddwyr a rhanddeiliaidcraidd wedi'u rheoleiddio yn natblygiad teg a thryloyw marchnadoedd o'r fath.

## Diben Strategol 4: Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

| | |
|---|---|
| Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | • Chwarae rhan weithredol yn UKCCIS a chyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd mewn perthynas ag amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw<br>• Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU, gan gynnwys rownd arall o drwyddedu radio cymunedol a ffocws parhaus ar orfodi effeithiol<br>• Ail-drwyddedu Channel 4<br>• Adolygu trefniadau ar gyfer darllediadau pleidiol wleidyddol ac etholiadau pleidiau |

### Chwarae rhan weithredol yn UKCCIS a chyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd mewn perthynas ag amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw

4.43 Byddwn yn parhau i chwarae rhan weithredol i gefnogi Cyngor Diogelwch Rhyngrwyd Plant Llywodraeth y DU. Rydym hefyd yn gallu cyfrannu at waith UKCCIS drwy ein hymchwil marchnad i ymwybyddiaeth o gyfryngau ar-lein a'u defnyddio, yn enwedig drwy ein hadroddiadau llythrennedd yn y cyfryngau. Ar ben hynny, byddwn yn cefnogi'r llywodraeth a'r diwydiant yn eu hymdrechion i sicrhau trefn hunan-reoleiddio effeithiol mewn perthynas â diogelwch plant ar-lein. Yn olaf, byddwn yn parhau i gyfrannu at ddadleuon Ewropeaidd ynghylch amddiffyn pobl ifanc dan ddeunaw oed fel sy'n briodol.

### Adolygu trefniadau rheoleiddio ar gyfer cynnwys 'oedolion' a 'sgwrsio oedolion' ar wasanaethau darlledu llinol

4.44 Mae gan Ofcom ddyletswydd statudol i lunio ac, o bryd i'w gilydd, diwygio cod (neu godau) ar gyfer gwasanaethau teledu a radio, gan edrych ar safonau mewn cynnwys darlledu. Mae'r ddyletswydd hon yn golygu gosod a gorfodi rheolau i sicrhau:

- bod pobl dan 18 oed yn cael eu hamddiffyn;
- bod safonau sy'n cael eu derbyn yn gyffredinol yn cael eu defnyddio er mwyn rhoi amddiffyniad digonol i'r cyhoedd rhag darlledu deunyddiau sy'n peri tramgwydd a niwed; a
- bod cynnwys hysbysebion a allai fod yn gamarweiniol, peri niwed neu dramgwydd mewn gwasanaethau teledu a radio yn cael ei atal.

4.45 Gan feddwl am yr amcanion hyn, mae Ofcom a'i gyd-reoleiddiwr yr Awdurdod Safonau Hysbysebu wedi gosod rheolau caeth yn ein codau i sicrhau bod cynnwys darlledu'n cael ei amserlennu'n briodol a bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag deunyddiau sy'n anaddas iddynt. Ceir hefyd reolau cynhwysfawr sy'n berthnasol i raglenni 'oedolion' a chynnwys 'sgwrsio oedolion' (hy hysbysebion ar ffurf hir sydd o natur rywiol, sy'n cael eu darlledu min nos ac fel rheol sy'n cynnwys rhyngweithio â'r cyflwynwyr ar y sgrin).

4.46 Dros y 12 i 18 mis diwethaf bu nifer o fethiannau cydymffurfio a oedd yn ymwneud â rhaglenni 'oedolion' a chynnwys 'sgwrsio oedolion'. Felly mae Ofcom yn credu ei bod yn briodol adolygu'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn ystod 2012/13 i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben.

## Trwyddedu gwasanaethau teledu a radio yn y DU, gan gynnwys rownd arall o drwyddedu radio cymunedol a ffocws parhaus ar orfodi effeithiol

4.47 Bydd Ofcom yn parhau i drwyddedu gwasanaethau teledu a radio a ddaw dan awdurdodaeth y DU, i ddarparu ystod eang o wasanaethau darlledu i ddefnyddwyr. Yn ystod 2012/13 bydd hyn yn cynnwys trydedd rownd barhaus trwyddedu radio cymunedol; byddwn yn asesu ceisiadau o'r Alban (a ninnau eisoes wedi cwblhau'r broses ar gyfer Cymru yn gynnar yn 2012), ac yn gwahodd ceisiadau o Ogledd Iwerddon, gogledd ddwyrain Lloegr, gogledd orllewin Lloegr, Swydd Efrog, Canolbarth Lloegr a dwyrain Lloegr a de ddwyrain Lloegr. Rhoddir trwyddedau am bum mlynedd, a gofynnir i wasanaethau ddarparu budd cymdeithasol i'r cymunedau perthnasol.

4.48 Ddiwedd mis Tachwedd 2011, roedd 196 o orsafoedd radio cymunedol ar yr awyr, yn darparu budd cymunedol i oddeutu 12.5 miliwn o bobl ledled y DU. Drwy gydol 2012/13 mae Ofcom yn bwriadu parhau i drwyddedu gwasanaethau radio cymunedol pan fydd amledd addas ar gael a phan fydd ceisiadau'n diwallu'r gofynion a nodir mewn deddfwriaeth. Byddwn hefyd yn parhau i weithredu dull cadarn a thrwyadl yng nghyswllt materion cydymffurfio, gan flaenoriaethu achosion lle mae'r risg o niwed i gynulleidfaoedd a dinasyddion yn uwch.

## Ail-drwyddedu Channel 4

4.49 Mae'r drwydded gyfredol ar gyfer prif wasanaeth Channel 4 yn rhedeg o 2004 hyd at ddiwedd 2014. Roedd Deddf yr Economi Ddigidol (2010) wedi addasu fframwaith rheoleiddio a chylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Corfforaeth Channel 4.

4.50 Byddwn yn ystyried adnewyddu trwydded Channel 4, a sut gellid ei diweddaru neu ei haddasu yng ngoleuni cylch gwaith ehangach Channel 4 a'r esblygiad parhaus ar gyfer darparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

## Adolygu trefniadau ar gyfer darllediadau pleidiol wleidyddol ac etholiadau pleidiau

4.51 Mae Ofcom yn gosod y rheolau darlledu ar gyfer etholiadau a refferenda, gan gynnwys mewn perthynas â darllediadau etholiadau pleidiau a darllediadau pleidiol wleidyddol. Mae'r rheolau'n ofynion sylfaenol a bennir gan Ofcom i helpu darlledwyr (ac eithrio'r BBC) i benderfynu ar ddyrannu, hyd, amlder ac amserlennu darllediadau pleidiol wleidyddol a darllediadau etholiadau pleidiau. Mae Ofcom yn defnyddio'r rheolau wrth benderfynu ar unrhyw anghydfod y cyfeirir ato gan bleidiau gwleidyddol neu gan ddarlledwyr. Yn ystod 2012/13 byddwn yn adolygu'r rheolau hyn i sicrhau eu bod yn aros yn addas i'r diben.

# Diben Strategol 5: Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd

| | |
|---|---|
| Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd | • Cyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth<br>• Trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd<br>• Cwblhau Newid i'r Digidol a chefnogi rhaglen radio digidol y llywodraeth<br>• Cyrraedd targedau lleihau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13 |

## Cyfrannu at Adolygiad Cyfathrebu'r Llywodraeth

4.52 Mae'r Llywodraeth yn cynnal adolygiad eang o'r fframwaith deddfwriaethol sy'n cefnogi sector cyfathrebu'r DU. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar dwf, arloesedd a dadreoleiddio, seilwaith cyfathrebu sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer twf a chreu'r amgylchedd iawn i'r diwydiant cynnwys ffynnu.

4.53 Ym mis Mai 2011 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant y Cyfryngau, y Gemau Olympaidd, a Chwaraeon lythyr agored yn gofyn ystod eang o gwestiynau am y sector cyfathrebu. Bydd ymatebion i hyn a gwaith arall a wnaed ers hynny wedyn yn arwain at gyhoeddi Papur Gwyrdd gan y llywodraeth yn 2012 a fydd yn rhoi'r dewisiadau ar gyfer fframwaith deddfwriaethol i gefnogi'r sector. Bydd ymgynghoriad ynghylch y cynigion yn y Papur Gwyrdd yn cyfrannu at Bapur Gwyn a Bil Cyfathrebu dilynol. Mae'r Llywodraeth wedi dweud ei bod yn bwriadu rhoi'r ddeddfwriaeth yn ei lle erbyn diwedd y Senedd hon.

4.54 Byddwn yn parhau i ymateb i geisiadau'r llywodraeth am gyngor yn ystod 2012/13 wrth iddi ddatblygu polisi yn y maes hwn. Byddwn yn cyfrannu at y ddadl hon, gan ddefnyddio ein profiad o reoleiddio'r sector cyfathrebu, a cheisio hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr.

## Trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd

4.55 Yn dilyn rhoi pwerau a dyletswyddau newydd i Ofcom gan dri Gorchymyn – sydd nawr wedi cael eu pasio gan y Senedd ac sydd wedi cael eu gwneud yn gyfraith gan yr Ysgrifennydd Gwladol – yn 2012/13 bydd Ofcom yn hysbysebu ac yn dyfarnu trwyddedau teledu lleol newydd.

4.56 Rydym eisoes wedi ymgynghori ynghylch ein dull gweithredu o ran trwyddedu a rheoleiddio'r gwasanaethau newydd hyn. Yn ystod hanner cyntaf 2012/13, rydym yn rhagweld trwyddedu un gweithredwr aml-blecs a fydd yn darparu teledu lleol drwy ddefnyddio sbectrwm rhyngddalennog daearyddol (GI) mewn nifer o leoliadau gwahanol. Ar yr un pryd, rydym yn disgwyl trwyddedu'r gwasanaethau lleol cyntaf.

## Cwblhau Newid i'r Digidol a chefnogi rhaglen radio digidol y llywodraeth

4.57 Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi'r newid i'r digidol ar gyfer teledu yn 2012/13. Mae gennym ddyletswyddau statudol i: ddiwygio trwyddedau darlledwyr; rheoli'r sbectrwm radio; a sicrhau bod gofynion darllediadau teledu statudol yn cael eu diwallu. Byddwn yn parhau i weithio gyda Digital UK, llywodraeth, darlledwyr, y Grŵp Teledu Digidol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod newid i'r digidol yn cael ei gwblhau'n llwyddiannus ddiwedd 2012.

4.58 Bydd Ofcom hefyd yn parhau i gefnogi Cynllun Gweithredu Radio Digidol y llywodraeth gan weithio gyda’r llywodraeth, darlledwyr, Digital Radio UK ac Arqiva. Fel y nodir yn y cynllun, byddwn yn parhau i arwain y gwaith cynllunio sbectrwm a darpariaeth yn ystod 2012/13, gan gynnwys ystyried posibiliadau ar gyfer defnyddio’r sbectrwm MW yn y dyfodol ac unrhyw sbectrwm FM gwag.

### Cyrraedd targedau lleihau carbon mewnol erbyn diwedd 2012/13

4.59 Mae Ofcom yn ceisio mabwysiadu arferion cynaliadwy pan fo hynny’n bosibl. Yn dilyn archwiliad carbon annibynnol yn 2007, roeddem wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon 25% erbyn 2012/13. Cynhaliwyd archwiliad mewnol yn 2009 a oedd yn cadarnhau ein bod eisoes wedi lleihau 15% ar ein hallyriadau.

4.60 Rydym yn disgwyl y bydd gweddill y targed lleihau’n cael ei gyflawni yn ystod 2012/13, ar sail arbedion a wneir drwy newid i ganolfannau data sy'n fwy gwyrdd. Byddwn hefyd yn cynnwys adran cynaliadwyedd ar wahân yn ein Hadroddiad Blynyddol, a fydd yn cynnwys metreg adrodd ariannol a heb fod yn ariannol ac yn cydymffurfio â chanllawiau adrodd Trysorlys EM.

## Adran 5

# Gwaith rhaglenni a gwasanaethau i randdeiliaid

## Mae Ofcom yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol ar gyfer defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill

5.1 Mae gennym ystod eang o gyfrifoldebau rydym yn eu cyflawni drwy gynnal prosiectau mewn meysydd penodol. Mae ein gwaith rhaglenni yn bwysig ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau, meysydd gwaith eraill a gwasanaethau i ddinasyddion, defnyddwyr a rhanddeiliaid.

**Ffigur 4: Gwaith rhaglenni parhaus Ofcom**

| Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy | Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon | Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr | Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau | Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd |
|---|---|---|---|---|
| • Gorfodi cystadleuaeth ee drwy ddatrys anghydfodau ac ymchwilio i gwynion dan y Ddeddf Cystadleuaeth a rhoi cosbau pan fo hynny'n briodol | • Cynllunio neilltuo sbectrwm a rhoi trwyddedau<br>• Cydweithrediad rhyngwladol ar sbectrwm gan sicrhau cydymffurfiad ag amcanion polisi Ewropeaidd a dyletswyddau rhyngwladol<br>• Gorfodi sbectrwm: Cynghori a helpu mewn achosion o ymyrraeth, cymryd offer nad oes awdurdod iddo ac erlyn pan fo hynny'n briodol | • Amddiffyniad oddi wrth a gorfodaeth yn erbyn telerau ac arferion annheg gan Ddarparwyr Cyfathrebu<br>• Cynnal a chyhoeddi ymchwil marchnad a defnyddwyr, gan gynnwys Llythrennedd yn y Cyfryngau<br>• Deall a hyrwyddo buddiannau defnyddwyr hŷn ac anabl<br>• Cynghori defnyddwyr ar sut mae cael y gorau o wasanaethau cyfathrebu drwy mwy o bresenoldeb ar-lein | • Sicrhau gorfodi safonau rhaglenni yn effeithlon ac effeithiol<br>• Gwella cydweithrediad ag awdurdodau clywedol yn Ewrop i fynd i'r afael â sialensiau awdurdodaeth | • Darparu cefnogaeth a chyngor i'r Llywodraeth ar weithredu polisi pan fo'n briodol<br>• Parhau i ymgysylltu â'r gwledydd a'r rhanbarthau<br>• Ymgysylltu a chyfranogi'n weithredol mewn rhwydweithiau rheoleiddio Ewropeaidd (gan gynnwys BEREC, RSPG, ERGP ac EPRA)<br>• Gwaith parhaus i gefnogi gwytnwch rhwydwaith, seiber ddiogelwch a mynediad i wasanaethau brys |

### Ymgysylltu â'r gwledydd

5.2 Fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol Drafft, mae ein dyletswyddau'n adlewyrchu ein cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion a defnyddwyr ar draws y DU i gyd. Yn benodol, rhaid inni ystyried buddiannau pobl ardaloedd gwahanol y DU a'r rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

5.3 Byddwn yn parhau i hybu buddiannau pedair gwlad y DU mewn nifer o ffyrdd yn ystod 2012/13:

- drwy ein gwaith yn y meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn adran 3, yn benodol:
  - o arwerthu bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz;

  - sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post;
  - asesu'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir yn y gwledydd;
  - cynghori'r Llywodraeth ar fesur lluosogrwydd y cyfryngau; a
  - gweithio ar y cyd gyda'r Llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau di-gyswllt symudol

- drwy ein gwaith yn y meysydd eraill a nodwyd yn adran 4, yn benodol:
  - cynnal rownd arall o drwyddedu radio cymunedol;
  - trwyddedu gwasanaethau teledu lleol newydd; a
  - drwy ein hymgysylltiad â sefydliadau datganoledig a rhanddeiliaid eraill.

<u>Yng Ngogledd Iwerddon, byddwn yn</u>:

- cyhoeddi cynllun cydraddoldeb diwygiedig;
- cynnal ymchwil dilynol ar grwydro symudol anfwriadol;
- cyfrannu at y newid i'r digidol; a
- chynnal y Fforwm Rhanddeiliaid Telathrebu.

<u>Yn yr Alban, byddwn yn:</u>

- gwneud penodiadau i fwrdd MG ALBA drwy ymgynghori â Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban;
- cysylltu â Llywodraeth yr Alban a rhanddeiliaid eraill ynghylch y paratoadau ar gyfer Gemau'r Gymanwlad yn Glasgow yn 2014;
- parhau i fesur faint sy'n defnyddio band eang yn Glasgow a'r ardal gyfagos; a
- cheisio cyfrannu at drafodaethau parhaus am faterion sy'n ymwneud â darlledu a chysylltedd.

<u>Yng Nghymru, byddwn yn:</u>

- cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch y system newydd o safonau a fydd yn disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg;
- darparu cyngor rheoleiddiol i Lywodraeth Cymru i gefnogi ei rhaglen lywodraethu – ee cyflwyno'r Prosiect Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru, Cyflawni Cymru Ddigidol a'r Fframwaith Cynhwysiant Digidol;
- darparu cyngor a chefnogaeth i Lywodraeth Cymru ar weithredu ei pholisi radio cymunedol; a

- gweithio gyda'r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar ddyfodol y cyfryngau yng Nghymru.

5.4 Byddwn yn darparu cyngor rheoleiddio i'r gweinyddiaethau datganoledig wrth iddynt weithredu cynlluniau i ymestyn argaeledd band eang a chynlluniau eraill, a byddwn yn cyfrannu at waith y deddfwrfeydd datganoledig ar draws ystod ein cyfrifoldebau.

5.5 Yn olaf, byddwn yn adnewyddu ein Pwyllgor Cynghori ar gyfer Lloegr i wella ei allu i gynrychioli buddiannau a safbwyntiau dinasyddion a defnyddwyr sy'n byw yn Lloegr. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn ceisio penodi aelodau sydd â phrofiad o faterion cyfathrebu fel y maent yn effeithio ar gymunedau gwledig, busnesau bach a chanolig a grwpiau ethnig, ymysg eraill.

5.6 Yn ogystal â'r gwaith rhaglenni a ddangosir uchod, rydym yn darparu nifer o wasanaethau hanfodol i randdeiliaid a defnyddwyr er mwyn cyflawni ein dyletswyddau yn rhinwedd ein swyddogaeth fel rheoleiddiwr y sector cyfathrebu.

## Mynd i'r afael ag anghenion defnyddwyr busnes

5.7 Yn yr un modd â'n hymgysylltiad â'r gwledydd, mae anghenion defnyddwyr busnes yn rhan gyson o'n gwaith. Rydym yn gwerthfawrogi bod yr anghenion hyn yn gallu bod yn wahanol i anghenion defnyddwyr preswyl, a'u bod yn debygol o ofyn am ddull rheoleiddio gwahanol.

5.8 Mewn marchnad cyfathrebu sy'n newid yn gyflym, mae arnom eisiau sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gefnogi anghenion busnesau, yn fach ac yn fawr. Mae arnom hefyd eisiau sicrhau bod gan ddarparwyr cyfathrebu'r hyn sydd ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau i'r busnesau hynny.

5.9 Mae ein hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn flaenoriaeth ar gyfer 2012/13. Bydd yn ystyried a oes eisiau rheoleiddio i fynd i'r afael â phŵer sylweddol yn y farchnad mewn marchnadoedd sy'n berthnasol i ystod eang o wasanaethau a ddefnyddir gan fusnesau a darparwyr cyfathrebu. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â nifer o faterion sy'n bwysig i ddefnyddwyr busnes ledled y DU, gan gynnwys:

- hybu cystadleuaeth a buddsoddiad i gyflenwi band eang cyflym iawn;
- arwerthu bandiau sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz;
- sicrhau y darperir gwasanaeth post cyffredinol a chanfod anghenion defnyddwyr y post;
- gweithio ar y cyd gyda'r llywodraeth a'r diwydiant i hyrwyddo band eang cyflym iawn yn eang a lleihau mannau di-gyswllt symudol;
- cynrychioli buddiannau'r DU yn weithredol ar bwyllgorau sbectrwm rhyngwladol.

5.10 Yn ystod 2012/13 byddwn yn dal i ymateb i anghenion ehangach defnyddwyr busnes ac yn sicrhau bod darparwyr yn gallu cystadlu er mwyn cynnig gwasanaethau effeithiol i ddefnyddwyr busnes terfynol.

## Delio ag ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd

5.11 Mae ein tîm gweithrediadau canolog yn delio ag ymholiadau a chwynion gan ddefnyddwyr am wasanaethau telathrebu, gwasanaethau teledu a radio a defnyddio'r sbectrwm radio. Ein nod yw helpu defnyddwyr i ddatrys eu hymholiadau a'u cwynion drwy eu cyfeirio at gyngor defnyddiol a drwy gysylltu â darparwyr gwasanaeth.

5.12 Ar ben hynny, bydd pobl yn aml yn cwyno'n uniongyrchol wrthym am raglenni teledu a radio. Rydym yn ystyried cwynion am nifer o feysydd megis diogelu pobl dan 18 oed, niwed a thramgwydd, tegwch a phreifatrwydd a bod yn ddiduedd ac yn gywir wrth gyflwyno newyddion. Ond, nid ydym yn ystyried materion sy'n ymwneud â bod yn ddiduedd ac yn gywir yng nghyswllt rhaglenni'r BBC, gan mai cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth y BBC yw hynny. Rydym hefyd yn rheoli cwynion am noddwyr rhaglenni a dylanwad masnachol honedig.

5.13 Mae Tîm Cyswllt Defnyddwyr Ofcom yn rhoi rhybudd cynnar ynghylch pryderon defnyddwyr. Mae meysydd newydd sy'n achosi pryder yn codi drwy'r amser ac mae'r rhain yn creu cynnydd annisgwyl yn nifer y cwynion a gawn.

## Cadw'r sbectrwm radio yn rhydd rhag ymyrraeth

5.14 Rydym yn monitro'r sbectrwm radio ac yn cymryd camau priodol i atal ymyrraeth niweidiol ar y sbectrwm. Mae'r galw cynyddol am sbectrwm a defnyddio mwy arno yn arwain at fwy o risg o ymyrraeth. Bydd Ofcom yn parhau i weithredu i atal hyn rhag digwydd a'i liniaru pan fydd yn digwydd.

5.15 Mae ein Tîm Peirianneg a Gorfodi Sbectrwm yn delio ag oddeutu 5,000 o achosion y flwyddyn, gan weithredu i:

- amddiffyn cyfathrebu diogelu bywyd, gan gynnwys y gwasanaethau brys a'r gwasanaeth rheoli traffig awyr;
- atal y sbectrwm radio rhag cael ei ddefnyddio'n anghyfreithlon;
- caniatáu defnydd cyfreithlon ar y sbectrwm drwy, er enghraifft, ddarparu cyngor a chymorth i ddefnyddwyr sbectrwm; a
- sicrhau y caiff offer nad yw'n cydymffurfio ei dynnu oddi ar y farchnad.

## Trwyddedu mynediad at y sbectrwm radio

5.16 Mae Ofcom yn rheoli mynediad at y sbectrwm radio drwy gyhoeddi, adnewyddu a diddymu trwyddedau. Pan fydd angen, byddwn yn neilltuo amledd, yn clirio safleoedd ac yn cydlynu defnyddio sbectrwm yn rhyngwladol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cyhoeddi oddeutu 23,000 o drwyddedau sbectrwm, (heb gynnwys adnewyddu) sy'n berthnasol i ddefnyddwyr lloeren, dolenni sefydlog, radio busnesau preifat, amatur, morol a defnyddwyr eraill.

## Darparu gwasanaethau gwybodaeth

5.17 Rydym yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am ddefnyddio'r sbectrwm radio. Mae hyn yn gyfraniad pwysig at gydlynu'r defnydd o sbectrwm yn effeithlon. Rydym hefyd yn hwyluso prynu a gwerthu trwyddedau sbectrwm gan randdeiliaid.

## Cyfrifoldeb corfforaethol

5.18 Mae Ofcom wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cyfrifol a rheoli ei effaith ar y gymuned ehangach. Dyma ein hamcanion cyfrifoldeb corfforaethol:

- Trin pob cydweithiwr ag urddas a pharch mewn amgylchedd gwaith cynhwysol a theg, gan hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.
- Lleihau ein hôl troed carbon, darparu gwerth am arian a sicrhau bod arferion Ofcom yn gynaliadwy yn amgylcheddol.
- Ymgysylltu, ysbrydoli a datblygu cydweithwyr wrth fynd ati'n rhagweithiol i geisio cefnogi ein cymuned leol.

5.19 Rydym newydd gyhoeddi ein Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2011 sy'n dod ag ymrwymiad Ofcom yng nghyswllt amrywiaeth a chydraddoldeb ynghyd ac yn ei gryfhau[6]. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl yn nodi'n glir y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yn hyn a'r hyn rydym yn gobeithio ei gyflawni yn y dyfodol. Fel rhan o hyn, rydym wedi gosod amcanion cydraddoldeb i ni'n hunain a chyfres o gamau gweithredu rydym yn gobeithio eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar y cynnydd rydym yn ei wneud yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb.

5.20 Mae Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2011 yn diwallu gofynion newydd Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn cynnwys pob maes cydraddoldeb megis oed, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

5.21 Rydym yn parhau i gefnogi ysgol gynradd leol, lle bydd cydweithwyr Ofcom yn rhedeg cynllun darllen poblogaidd. Rydym hefyd newydd ddechrau gwirfoddoli tîm, sydd wedi bod yn ffordd effeithiol o wella datblygiad tîm.

---

[6] http://www.ofcom.org.uk/files/2011/10/SES_2011.pdf

Adran 6

# Agwedd Ofcom at reoleiddio

## Rydym yn ceisio ysgafnhau'r baich rheoleiddiol ar randdeiliaid yn unol â dyletswyddau Ofcom

6.1 Wrth gyflawni ein dyletswyddau a diwallu ein dibenion strategol, rydym yn dilyn set bendant o egwyddorion rheoleiddiol. Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau bod ein gwaith yn mynd i'r afael â phroblemau penodol yn effeithiol, yn amserol, yn gadarn ac yn gynhwysfawr. Maent hefyd yn ein helpu i egluro ein hagwedd reoleiddiol a symleiddio a lleihau rheoleiddio, ar yr un pryd â chynyddu gwerth am arian pan fydd hynny'n bosibl.

6.2 Dyma ein hegwyddorion rheoleiddio, sy'n berthnasol i'n dyletswyddau statudol[7]:

### Pryd byddwn yn rheoleiddio

- Bydd Ofcom yn gweithredu gyda gogwydd yn erbyn ymyrryd, ond â pharodrwydd i ymyrryd yn ddiymdroi ac yn effeithiol pan fydd angen.
- Bydd Ofcom yn ymyrryd pan mae dyletswydd statudol benodol i weithio at nod na all y marchnadoedd ei gyflawni ar eu pen eu hunain.

### Sut rydym yn rheoleiddio

- Bydd Ofcom bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.
- Bydd Ofcom yn ceisio sicrhau bod ymyriadau ar sail tystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth ac o ran canlyniadau.
- Bydd Ofcom yn rheoleiddio gyda chynllun blynyddol clir ac a adolygir yn gyhoeddus, gydag amcanion sydd wedi cael eu datgan.

### Sut byddwn yn cefnogi rheoleiddio

- Bydd Ofcom yn ymchwilio i'r farchnad cyfathrebu ac yn ceisio aros ar y blaen i ddealltwriaeth dechnolegol.
- Bydd Ofcom yn ymgynghori'n eang â'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn asesu effaith camau rheoleiddio cyn rheoleiddio marchnad.

6.3 Mae ein gogwydd tuag at beidio ag ymyrryd yn ceisio sicrhau nad ydym ond yn rheoleiddio lle mae hynny'n gwbl angenrheidiol. Gallai ymyrryd diangen o'r fath ystumio neu lesteirio datblygiad marchnadoedd cystadleuol sy'n newid yn gyflym. Ond, lle mae angen ymyrryd, byddwn yn gwneud hynny'n gyflym ac yn gadarn.

[7] http://www.ofcom.org.uk/about/what-is-ofcom/statutory-duties-and-regulatory-principles/

6.4 Mae Adran 6 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn rhoi dyletswydd ar Ofcom i beidio â rhoi beichiau diangen na chynnal beichiau sydd wedi dod yn ddiangen. Mae Adran 6 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi datganiad bob 12 mis yn dangos sut mae wedi cyflawni'r ddyletswydd hon. Rydym yn gwneud hyn yn ein Cynllun Blynyddol Drafft[8] bob blwyddyn drwy roi enghreifftiau o'n cynlluniau symleiddio diweddar.

## Mae ein hagwedd at reoleiddio wedi'i dylunio i leihau beichiau

6.5 Mae ein proses cynllunio blynyddol yn gosod ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol gan gofio ein hagwedd at reoleiddio.

6.6 Ar ben ein hegwyddorion rheoleiddio, bydd nifer o themâu yn aros yn bwysig i'n gwaith drwy gydol 2012/13. Sef:

- Ystyried sut mae ein gwaith a'i ganlyniadau'n berthnasol i bob gwlad yn y DU. Caiff ein gwaith ei ddylanwadu fwyfwy gan oblygiadau datganoli a gwahaniaethau yn y gwledydd a rhwng y gwledydd.

- Defnyddio pecyn cymorth buddiannau Ofcom i helpu i ddod o hyd i fuddiannau defnyddwyr ar draws ein gwaith a mynd i'r afael â nhw. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys cyfres o gwestiynau y dylai pob tîm yn Ofcom eu gofyn i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i fuddiannau ddefnyddwyr ym mhopeth a wnawn.

6.7 Mae Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau mewn ffordd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Gwell Rheoleiddio. Mae hyn yn golygu ei bod yn rhaid i ymyriadau rheoleiddio fod ar sail tystiolaeth, yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion y mae angen gweithredu yn eu cylch.

6.8 Mae asesiadau o'r effaith yn cyfrannu at ein penderfyniadau. Gall cynnal asesiad helpu i ddod o hyd i'r broblem y mae angen rhoi sylw iddi, dewisiadau gwahanol ar gyfer rheoleiddio (gan gynnwys peidio â rheoleiddio) a rhoi sail ar gyfer dewis yr opsiwn sy'n rhoi'r mwyaf o fanteision posibl ac sy'n lleihau costau ymyrryd.

6.9 Mae Adran 7 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn cyflawni ac yn cyhoeddi asesiad o'r effaith pan ymddengys fod ein cynnig yn bwysig. Fodd bynnag, oherwydd bod asesiadau o'r effaith yn rhan o arfer rheoleiddio da, rydym yn eu cynnal yng nghyswllt y rhan fwyaf o'n penderfyniadau.

6.10 Gall rheoleiddio cymesur ac sydd wedi'i dargedu helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion a defnyddwyr yn y DU. Er bod treth beichiau ar gwmnïau wedi'u rheoleiddio yn rhan annatod o reoleiddio, rydym yn credu bod cyfiawnhad dros yr ymyriadau pan mae'r manteision cyffredinol a fydd yn deillio ohonynt yn drech na'r beichiau hyn.

6.11 Wrth ddadansoddi costau a manteision rheoleiddio, mae angen defnyddio egwyddor bod yn gymesur, sy'n golygu y bydd yn aml yn briodol i ni ganolbwyntio ar y costau a'r manteision pwysicaf a pheidio â threulio gormod o amser yn ystyried y rheini sy'n eithaf dibwys. Ar ben hynny, rhaid i faint o wybodaeth rydym yn gofyn amdani gan randdeiliaid er mwyn cyflawni ein dadansoddiad fod yn gymesur.

[8] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/936793/summary/condoc.pdf

6.12 Wrth asesu ein dewisiadau ar gyfer ymyrryd, rydym yn ystyried ystod o atebion eraill.Mae'r rhain yn amrywio o ddim rheoleiddio o gwbl i hunan-reoleiddio gan y diwydiant ei hun (pan fydd y diwydiant yn gweinyddu ateb heb drosolwg na phwerau rheoleiddio stopio'n ôl), cyd-reoleiddio (lle mae gan y llywodraeth neu'r rheoleiddiwr bwerau stopio'n ôl a rhywfaint o drosolwg), hyd at ymyriad statudol llawn.

6.13 Rydym wedi parhau i ddatblygu a defnyddio cyfarwyddyd rheoli prosiect i sicrhau bod pob rheolwr prosiect yn deall ac yn ystyried asesiadau o'r effaith, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, risg, a chyd-reoleiddio a hunan-reoleiddio, yn ogystal â diffinio metreg llwyddiant yn glir.

## Rydym yn adolygu rheoleiddio'n rheolaidd er mwyn archwilio a yw'n dal yn addas i'r diben ac yn tynnu beichiau pan nad oes cyfiawnhad drostynt mwyach

6.14 Pan fydd y rheoleiddio ar waith, rydym yn ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried newidiadau yn amodau'r farchnad, anghenion rhanddeiliaid a gofynion statudol i gynnal adolygiadau ffurfiol ar adegau penodol. Caiff ymyriadau pwysig eu gwerthuso hefyd yng nghyswllt y canlyniadau yr oeddent i fod i'w cyflawni'n wreiddiol. Mae adolygiadau a gwerthusiadau'n bwysig iawn er mwyn pennu a oes cyfiawnhad dros y rheoliadau presennol a'r beichiau sydd ynghlwm wrthynt ac a ydynt yn angenrheidiol.

6.15 Ers ei greu mae Ofcom wedi bod ag agwedd strategol at reoleiddio, gan gyhoeddi adolygiadau sectoraidd amrywiol. Er bod y rhain yn gallu arwain at feichiau gweinyddol ar randdeiliaid drwy geisiadau am wybodaeth a'r broses ymgynghori, maent yn angenrheidiol er mwyn i ni gasglu sylfaen dystiolaeth i'w dadansoddi. Ar y llaw arall, mae agwedd strategol at reoleiddio'n lleihau'r tebygolrwydd y rhoddir sawl haen o reoleiddio heb eu cydlynu dros gyfnod, sy'n peri'r risg y rhoddir beichiau diangen arnom ni ac ar randdeiliaid.

## Atodiad 1

# Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cyflwyniad

A1.1 Cawsom 33 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan randdeiliaid, gan gynnwys unigolion preifat, grwpiau eiriolaeth, sefydliadau budd defnyddwyr, cwmnïau a chyrff masnach. Roeddem hefyd wedi cynnal digwyddiadau ledled y DU i rannu ein rhaglen waith arfaethedig, lle cawsom gwestiynau ac adborth.

A1.2 At ei gilydd cawsom gefnogaeth gyffredinol ar gyfer ein blaenoriaethau a'n rhaglen waith, ond roedd rhai rhanddeiliaid wedi codi materion ynghylch agweddau penodol ar ein Cynllun Blynyddol Drafft 2012/13. Rydym wedi crynhoi'r materion hyn a'n hymatebion yn yr atodiad hwn, ond nid yw'n bosibl i ni ymateb i'r holl gwestiynau manwl.

A1.3 Mae'r crynodeb yn grwpio'r ymatebion i'r ymgynghoriad dan ein pum diben strategol ac yn trafod y meysydd gwaith mawr a'r blaenoriaethau roeddem wedi'u cyflwyno yn y Cynllun Blynyddol Drafft.

## Sylwadau cyffredinol ar y Cynllun Blynyddol Drafft

A1.4 At ei gilydd, roedd yr ymatebwyr yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at raglen waith Ofcom drwy'r Cynllun Blynyddol Drafft, ac roedd rhai yn gwerthfawrogi bod y strwythur yn debyg i ddogfen y llynedd.

A1.5 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon wedi awgrymu cynnwys adran benodol ar y gwledydd yn y Cynllun Blynyddol, gan dynnu sylw at faterion rheoleiddio penodol sydd o berthnasedd penodol i Ogledd Iwerddon, yr Alban, Cymru a Lloegr.

A1.6 Rydym wedi diweddaru datganiad y Cynllun Blynyddol i dynnu sylw at faterion penodol sydd yn y gwledydd (gweler tudalennau 33-35). Gan fod y materion hyn yn cael eu trin gan amrywiaeth o brosiectau Ofcom, rydym yn bwriadu cynnwys pennod ar y gwledydd mewn fersiynau o'r Cynllun Blynyddol Drafft yn y Dyfodol.

### Hybu cystadleuaeth effeithiol a chynaliadwy

### Ymatebion am gystadleuaeth yn gyffredinol

A1.7 Gofynnodd BT a TalkTalk am eglurhad ynghylch unrhyw adolygiadau o'r farchnad a rheolaethau ffioedd cysylltiedig y gallai Ofcom o bosibl ddechrau gwaith arnynt yn ystod ail hanner 2012/13.

A1.8 *Bydd y rheolaethau ffioedd ar gyfer cynnyrch LLU, WLR ac WBA i gyd yn dod i ben erbyn mis Ebrill 2014. Felly mae angen i ni adolygu'r marchnadoedd hynny ac, os ydym yn credu bod dal angen rheolaethau ffioedd, cyflwyno rheolaethau ffioedd newydd cyn hynny. Felly byddwn yn dechrau gweithio ar yr adolygiadau hyn ddiwedd 2012.*

## Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes

A1.9 Cawsom nifer o ymatebion mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes (BCMR). Roedd Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU (UKCTA) yn cefnogi'r Adolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes, ond gofynnodd i Ofcom chwarae rhan mwy strategol o ran ceisio hyrwyddo buddiannau busnesau yn y DU. Roedd Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu (FCS) yn dadlau y dylai'r adolygiad gynnwys gofynion defnyddwyr busnes terfynol busnesau bach a chanolig, darparwyr gwasanaeth llai ac ailwerthwyr.

A1.10 Roedd Cable & Wireless Worldwide yn dadlau na ddylid cynnal y BCMR ar ei ben ei hun heb ystyried defnyddio mynediad y genhedlaeth nesaf (hynny yw, rhwydweithiau ffibr optig) a fydd yn gwasanaethu defnyddwyr busnes a phreswyl. Roedd Verizon Business yn poeni bod ymgynghoriad y BCMR wedi cael ei oedi ac y byddai'n cael cyfnod ymgynghori byrrach.

A1.11 *Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau'r rhanddeiliaid ar yr adolygiad rydym yn ei gynnal a byddwn yn ystyried y sylwadau hyn yn y BCMR fel sy'n briodol.*

## Adolygiad o'r Farchnad Band Cul

A1.12 Gofynnodd BT am eglurhad ynghylch a fyddai'r Cynllun Blynyddol yn cynnwys adolygiad o linellau cyfnewidfa yn yr Adolygiad o'r Farchnad Band Cul ac os nad, sut y caiff hyn ei wneud. Roedd Cymdeithas y Darparwyr Gwasanaethau Ffôn Rhyngrwyd (ITSPA) yn croesawu'r Adolygiad o'r Farchnad Band Cul ac yn annog Ofcom i sicrhau bod ganddo ddigon o adnoddau ac y rhoddir sylw i gydrannau radical yr adolygiad.

A1.13 *Fel y nodir uchod, rydym yn bwriadu adolygu llinellau cyfnewidfa analog a llinellau cyfnewidfa ISDN30, gan ddechrau diwedd 2012 er mwyn cwblhau'r adolygiadau hyn mewn da bryd i gyflwyno rheolaethau ffioedd newydd, os oes angen, ym mis Ebrill 2014. Felly ni fyddwn yn adolygu'r marchnadoedd hyn yn yr adolygiad band cul yn ystod 2012/13. Rydym hefyd yn bwriadu adolygu'r farchnad ISDN2 ar yr un pryd â'r llinellau cyfnewidfa analog a'r marchnadoedd ISDN30 ac felly ni fydd ISDN2 yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad o'r farchnad band cul.*

## Band eang cyflym iawn

A1.14 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon (ACNI) yn falch bod y fframwaith rheoleiddio ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf eisoes yn darparu cystadleuaeth adwerthu yng Ngogledd Iwerddon. Roedd TalkTalk yn credu y dylai prif ffocws Ofcom o ran band eang cyflym iawn fod ar sicrhau cystadleuaeth adwerthu effeithiol.

A1.15 *Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau'r rhanddeiliaid ar y mater hwn a byddwn yn eu hystyried yn ein rhaglen waith fel sy'n briodol.*

## Galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol

A1.16 Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau ymysg rhanddeiliaid y diwydiant ynghylch ein gwaith ar rifau nad ydynt yn rhai daearyddol. Roedd The Number Ltd yn frwd o blaid yr adolygiad, ond yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth uwch iddo na meysydd gwaith eraill yn y Cynllun Blynyddol. Awgrymodd Cable &Wireless Worldwide fod Ofcom yn

gweithio tuag at ganlyniad sy'n cadw'r lefel bresennol o daliadau cydgysylltu er mwyn lleihau effaith unrhyw newidiadau ar fusnesau a defnyddwyr y DU. Gofynnodd FCS am esboniad cliriach o'r bwriad tu ôl i'r "set benodol o reolau rheoleiddio" yn adran 5.12 yr ymgynghoriad.

A1.17 *Rydym yn bwriadu datblygu ein gwaith i symleiddio galwadau nad ydynt yn rhai daearyddol yn ystod 2012/13. Mae hwn yn brosiect blaenoriaeth, oherwydd graddfa'r farchnad a'r cwmpas ar gyfer manteision i ddefnyddwyr busnesau bach a domestig yn y DU os bydd diwygiadau'n llwyddo i wneud y drefn yn symlach ac yn fwy effeithiol, gyda llai o anghydfodau yn y diwydiant. Ein hamcan yw hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, nid cadw'r lefel bresennol o daliadau cydgysylltu, er bydd ein hasesiad o'r effaith yn ystyried sut y byddai unrhyw ddiwygiadau yn effeithio ar sawl darn o'r diwydiant (yn ogystal ag asesu'r effaith ar ddefnyddwyr yn bennaf).*

A1.18 *Mewn perthynas ag ymholiad yr FCS, yn yr un modd ag ymgynghoriadau polisi eraill, rydym yn disgwyl cyhoeddi newidiadau arfaethedig i'r drefn rheoleiddio fel rhan o'r broses o weithredu unrhyw gynigion polisi (fel mae'n rhaid i ni wneud dan adran 48 y Ddeddf Cyfathrebiadau). Mae hyn yn dibynnu ar ganlyniad unrhyw broses ymgynghori.*

## Cludo rhifau

A1.19 Galwodd UKCTA ac ITSPA am adolygiad o'r broses bresennol o gludo rhifau rhwng darparwyr cyfathrebu. Yn yr un modd, roedd darparwr telathrebu sefydlog yn cefnogi'r adolygiad o newid yn y farchnad adwerthu ond roedd yn teimlo bod angen ffocws penodol ar agwedd newid yn y farchnad cyfanwerthu hefyd.

A1.20 *Rydym yn bwriadu ystyried yr achos ar gyfer adolygiad pellach o drefniadau cludo rhifau dim ond ar ôl i ni gwblhau'r cam presennol o'n hadolygiad strategol o newid.*

## Adrodd ariannol rheoleiddiol

A1.21 Roedd Verizon Business wedi codi gogwydd cost a chyfrifyddu rheoleiddio, ac roedd yn dadlau y dylid rhoi mwy o amlygrwydd i hyn yn y Cynllun Blynyddol fel maes polisi allweddol nad yw wedi cael ei ystyried ers tro byd.

A1.22 *Rydym yn cytuno ei fod yn faes polisi pwysig, ac rydym yn neilltuo digon o adnoddau er mwyn sicrhau ein bod yn ei ystyried yn ofalus.*

## Teledu drwy Dalu

A1.23 Dywedodd BT nad oedd yr amcan o sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wedi cael ei gyflawni, ac y dylai teledu drwy dalu barhau i fod yn flaenoriaeth i Ofcom yn ystod 2012/13. Roedd The Voice of the Listener and Viewer yn poeni am faterion cystadleuaeth posibl ynghylch argaeledd ffilmiau a chynnwys sy'n dod o dramor.

A1.24 *Ar hyn o bryd mae hwn yn faes gwaith ar gyfer 2012/13 gan ein bod yn disgwyl am ganlyniad dyfarniad y Tribiwnlys Apêl Cystadleuaeth, ac ar ôl hynny byddwn yn ystyried pa waith pellach all fod yn briodol i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau teledu drwy dalu. Yn yr un modd, byddwn yn parhau i gyfrannu at ymchwiliad y Comisiwn Cystadleuaeth ynghylch ffilmiau ar deledu drwy dalu.*

### Materion ehangach o ran rheoleiddio mynediad telathrebu

A1.25 Roedd UKCTA a'r Gymdeithas Rheoli Cyfathrebu (CMA) yn awgrymu y dylai Ofcom gynnal adolygiad o Ymgymeriadau BT yng nghyd-destun newid o gopr i ffibr. Roedd Geo hefyd yn credu y dylai Ofcom gynnal adolygiad strategol arall o sector telathrebu'r DU a ddylai hefyd gynnwys Ymgymeriadau BT.

A1.26 *Rydym yn parhau i fonitro ac asesu effeithiau amgylchiadau yn y farchnad a newid technegol ar bolisi rheoleiddio cyfredol, gan gynnwys canlyniad yr adolygiad strategol diwethaf o delathrebu. Os daw tystiolaeth i'r fei sy'n awgrymu bod angen adolygiad strategol ehangach, byddwn yn ystyried hyn.*

A1.27 Cododd Sky fater ansawdd gwael y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan Openreach ac roedd yn credu bod angen adolygiad o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar draws pob cynnyrch sy'n cael ei reoleiddio.

A1.28 *Fel y nodwyd yn y Cynllun Blynyddol, mae cystadleuaeth o ran darparu gwasanaethau band eang a llais yn seiliedig i raddau helaeth ar y cynnyrch sy'n cael eu darparu gan Openreach. Felly mae'n bwysig bod Openreach yn darparu'r cynnyrch hyn yn dda. Yn dilyn cyfnod pan roedd perfformiad yn is o lawer na lefelau derbyniol, roeddem wedi gofyn i'r OTA flaenoriaeth, yn ei raglen waith, y meysydd sy'n effeithio ar allu Openreach i ddarparu lefel dda o berfformiad gwasanaeth. Mae nifer o gamau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac mae gwaith yn parhau i ddod o hyd i ragor o welliannau gweithredol a fydd yn helpu i wella lefelau gwasanaeth cyffredinol.*

A1.29 *Yn ystod y flwyddyn byddwn yn parhau i gefnogi gwaith yr OTA yn y maes hwn ac rydym yn bwriadu cynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd gydag Openreach i sicrhau ei fod yn diwallu ein disgwyliadau yn y prif feysydd o ddarparu gwasanaeth.*

## Hybu defnyddio asedau cyhoeddus yn effeithlon

### Clirio sbectrwm a dyfarniadau

A1.30 Cawsom lawer o ddiddordeb gan randdeiliaid yn ein blaenoriaeth clirio sbectrwm a dyraniadau. Soniodd nifer o randdeiliaid am agweddau ar ddyfarnu'r bandiau 800MHz a 2.6GHz.

A1.31 Roedd un gweithredwr rhwydwaith symudol yn croesawu amcanion cyffredinol Ofcom ar gyfer arwerthiant, ond roedd yn poeni bod Ofcom yn credu nad yw sbectrwm dan 1GHz yn angenrheidiol i fod yn weithredwr rhwydwaith symudol cyfanwerthu cenedlaethol. Dywedodd Cable &Wireless Worldwide y byddai cryfhau cystadleuaeth ymysg gweithredwyr rhwydwaith symudol yn arwain at farchnad cyfanwerthu well o ran darparu gwasanaethau symudol.

A1.32 Roedd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon yn cefnogi'r ddyletswydd i gael mwy o ddarpariaeth ar un o'r trwyddedau 800MHz, i 98% o boblogaeth y DU. Dywedodd Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain (BEIRG) y dylai mesurau i liniaru ymyrraeth, a nodwyd yn y Cynllun Blynyddol Drafft, fod ar waith cyn i'r arwerthiant fynd rhagddo, gan nad yw'n hawdd datrys problemau ymyrraeth.

A1.33 *Rydym yn gwerthfawrogi'r sylwadau hyn gan randdeiliaid a byddwn yn ymateb iddynt yn ein rhaglen waith fel sy'n briodol.*

## Gwaith polisi sbectrwm yn edrych i'r dyfodol

A1.34 Dywedodd BEIRG ei bod yn rhaid i'r amcan o ragor o effeithlonrwydd sbectrwm a galluogi dyfarniadau sbectrwm newydd, beidio â gwthio defnyddwyr cyfredol sbectrwm radio allan.

A1.35 *Mae Ofcom yn croesawu sylwadau BEIRG a bydd yn parhau i ymgysylltu ag ef i fynd i'r afael â phryderon a materion PMSE y mae'n eu cynrychioli.*

A1.36 Awgrymodd Arqiva y dylai Ofcom flaenoriaethu ei waith ar ddyfodol bandiau sbectrwm UHF, ac ystyried eu pwysigrwydd i deledu daearol digidol, a newidiadau yn y cefndir rhyngwladol ers cyhoeddi'r Cynllun Blynyddol Drafft.

A1.37 *Mae'r gwaith mae Ofcom yn ei wneud drwy'r prosiect strategaeth UHF yn eithriadol o bwysig. Yn adran 4 rydym yn tynnu sylw at hyn fel un o'r prosiectau allweddol sy'n berthnasol i ddefnyddio sbectrwm yn y dyfodol. Mae'r ymgynghoriad roeddem wedi'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2012 yn edrych ar ddatblygiadau rhyngwladol a phatrymau mawr yn y galw am sbectrwm ar gyfer gwasanaethau allweddol, gan gynnwys teledu daearol digidol a band eang symudol. Roeddem hefyd wedi cyflwyno ein cynigion ar y ffordd orau o sicrhau manteision tymor hir i ddinasyddion a defnyddwyr yn sgil defnyddio bandiau sbectrwm UHF IV a V yn y dyfodol. Yn ystod 2012/13 byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y mater hwn, a byddwn yn disgwyl cyhoeddi datganiad a fydd yn nodi rhai o'r camau gweithredu a'r ystyriaethau allweddol dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys ar ymgysylltiad rhyngwladol a pholisïau penodol, yn enwedig defnyddio sbectrwm 600 MHz yn y dyfodol.*

A1.38 Roedd Samsung wedi sôn am ryddhau sbectrwm cyhoeddus yn y bandiau 2300-2400 MHz a 3400-3600 MHz.

A1.39 Dywedodd Cable &Wireless Worldwide fod camau gweithredu gan Ofcom, megis technegau lledaenu sbectrwm yn y band 870 MHz, yn gallu bod yn hwylusydd allweddol i ganiatáu i'r diwydiant ynni gyflwyno mesuryddion clyfar mewn ffordd gost effeithiol. Nododd Arqiva nad oedd Ofcom wedi cynnwys rhyddhau 872-876/917-921 MHz yn y Cynllun Blynyddol Drafft. Roedd yn annog Ofcom i ystyried a fyddai'n briodol rhyddhau'r band hwn ar y cyd â'r sbectrwm 2x2 MHz o sbectrwm cyfagos sy'n cael ei ddal gan y Weinyddiaeth Amddiffyn.

A1.40 *Mae'r bandiau sbectrwm 2300-2400 MHz, 3400-3600 MHz a 870-872 / 915-917 MHz yn cael eu dal a'u rheoli gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Maent wedi cael eu dynodi fel ymgeiswyr â blaenoriaeth ar gyfer rhyddhau i'r farchnad, yng nghynllun y Llywodraeth i ryddhau 500 MHz dan 5GHz at ddibenion newydd erbyn 2020. Y Llywodraeth fydd yn penderfynu ar ddull ac amseru unrhyw ryddhau o'r fath. Bydd Ofcom yn cydlynu â'r Llywodraeth lle ceir cysylltiad agos rhwng rhyddhau'r Llywodraeth a rhyddhau Ofcom yn y dyfodol, er enghraifft rhwng 870-872 / 915-917 MHz a 872-876 / 917-921 MHz.*

## AIP mewn darlledu

A1.41 Gofynnodd Arqiva fod Ofcom yn ymgysylltu â'r diwydiant darlledu am AIP yn ystod 2012/13, neu oedi ei gyflwyno er mwyn rhoi digon o gyfle i adolygu a thrafod.

A1.42 *Roedd Ofcom wedi gwneud gwaith paratoi ar gyfer gweithredu AIP yn faes gwaith ar gyfer 2012/13 (gweler tudalen 23), a bydd yn ymgysylltu â'r diwydiant darlledu a rhanddeiliaid eraill i gyfrannu at y gwaith hwn, cyn ymgynghoriad.*

### Dyfeisiau Gofod Gwyn

A1.43 Cododd BEIRG y pryder y gellid achosi ymyrraeth gan ddyfeisiau llaw symudol sy'n gweithio drwy ddefnyddio sbectrwm rhyngddalennog di-drwydded.

A1.44 Roedd BT yn credu y dylai Ofcom geisio cwblhau rheoliadau ar gyfer dyfeisiau gofod gwyn yn 2012, ac y byddai'n ddefnyddiol petai modd i'r Cynllun Blynyddol adlewyrchu hyn. Dywedodd hefyd y byddai 2013 yn ddyddiad gweithredu mwy priodol.

A1.45 *Mae Ofcom yn gweithio tuag at roi rheoliadau mewn lle ar gyfer dyfeisiau gofod gwyn a ganiateir heb drwydded. Mae gweithredu dyfeisiau gofod gwyn yn amodol ar beidio ag achosi ymyrraeth niweidiol i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli.*

### Y Gemau Olympaidd a Pharalympaidd

A1.46 Awgrymodd BEIRG, fel rhan o'r dadansoddiad ar ôl y Gemau yr oedd ei fanylion yn y Cynllun Blynyddol Drafft, y dylai Ofcom gyhoeddi gwybodaeth am faint o sbectrwm a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnodau brig yn y Gemau, ac a fydd gan ddigwyddiadau mawr dilynol ddigon o sbectrwm.

A1.47 Roedd RadioCentre yn credu y dylai ystyriaethau rheoli sbectrwm ar gyfer y Gemau gael eu hymestyn i gynnwys gweithgareddau darlledwyr eraill nad oes ganddynt efallai fynediad i'r sylw a roddir i'r Gemau o'r tu mewn i'r lleoliadau.

A1.48 *Bydd Ofcom yn cyfrannu at broses rheoli gwybodaeth y Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol er mwyn i'n holynwyr allu defnyddio'r pethau defnyddiol a fydd yn cael eu dysgu yn Llundain. Byddwn felly'n ceisio cyhoeddi gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol i reoleiddwyr sbectrwm eraill sy'n cyfrannu at ddigwyddiadau arbennig mawr. Bydd profiad Gemau 2012 Llundain hefyd yn ein helpu i gyflawni ein cyfrifoldebau ein hunain ar gyfer Glasgow 2014, y Bencampwriaeth Athletau Ryngwladol yn 2017 a digwyddiadau mawr eraill yn y DU.*

A1.49 *Mae Ofcom yn gyfrifol am ddiwallu gwarant y Llywodraeth i ddyrannu'r amleddau radio angenrheidiol er mwyn trefnu'r Gemau. Bydd Ofcom (acArqiva yn achos PMSE) yn gwneud popeth bydd yn gallu ei wneud i ddiwallu anghenion holl ddefnyddwyr sbectrwm PMSE, ond pan fydd sbectrwm yn gyfyngedig, efallai na fyddwn yn gallu diwallu pob gofyniad ym mhob lleoliad.*

## Helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr

### Ymatebion defnyddwyr cyffredinol

A1.50 Roedd y Panel Defnyddwyr Cyfathrebu (CCP) yn awgrymu newid pwyslais ym mhwrpas strategol Ofcom o helpu marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr, gan awgrymu y dylid newid y diben i 'sicrhau bod anghenion cyfathrebu defnyddwyr yn cael eu diwallu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwasanaethau'n dda gan farchnadoedd effeithiol ac effeithlon a'u bod yn elwa arnynt'.

A1.51 *Bwriedir i'r dibenion strategol craidd a sefydlwyd fel rhan o Gynllun Blynyddol y llynedd fframio gwaith Ofcom dros y tymor canolig. Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau'r rhanddeiliaid ar y dibenion a byddwn yn eu hystyried fel rhan o'n hadolygiad strategol nesaf. Yn y cyfamser, rydym yn nodi awgrym y Panel y dylid newid y diben 'i sicrhau bod anghenion cyfathrebu defnyddwyr yn cael eu diwallu er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gwasanaethau'n dda gan farchnadoedd effeithiol ac effeithlon a'u bod yn elwa arnynt'. Rydym yn credu bod hwn yn ddisgrifiad amgen da o'n diben a'i fod yn cyd-fynd yn llwyr â'n diben strategol i 'helpu'r marchnadoedd cyfathrebu i weithio i ddefnyddwyr'. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Panel a rhanddeiliaid eraill dros y flwyddyn nesaf i'r perwyl hwn.*

## Prosesau newid

A1.52 Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a ymatebodd wedi mynegi cefnogaeth ar gyfer ein gwaith ar newid a chael proses sy'n cael ei harwain gan y darparwr sy'n ennill y cwsmer. Roedd materion eraill a godwyd yn cynnwys:

- Nid oedd ein hymgynghoriad diwethaf yn cynnwys newid darparwr symudol
- Bod Ofcom yn cefnogi diwydiant sy'n rheoleiddio ei hun gydag Ofcom yn rhoi trosolwg
- Bod costau uwch i ddefnyddwyr yn y farchnad llinell sefydlog a bod angen i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o'r broses newid a bod â hyder ynddi
- Bod angen rhagor o waith i symleiddio'r broses i ddefnyddwyr wrth newid bwndeli o wasanaethau er mwyn lleihau'r oedi
- Y dylai Ofcom weithredu yn erbyn contractau sy'n cael eu hadnewyddu'n awtomatig

A1.53 Mae newid yn flaenoriaeth i Ofcom dros y flwyddyn nesaf ac mae ein hadolygiad strategol yn cynnwys newid ar draws marchnadoedd cyfathrebu'r DU, gan gynnwys llwyfannau sefydlog a symudol. I ddechrau, ein blaenoriaeth yw newid rhwng gwasanaethau llais sefydlog a band eang sy'n cystadlu â'i gilydd. Byddwn yn ystyried sectorau eraill mewn camau o'r prosiect yn y dyfodol. Gwaharddodd Ofcomgontractau a adnewyddir yn awtomatig wrth werthu gwasanaethau band eang a llais sefydlog i ddefnyddwyr preswyl a busnesau bach o fis Rhagfyr y llynedd ymlaen. Dylai unrhyw gwsmeriaid o'r fath sydd ar ARC ar hyn o bryd gael eu symud i gynllun arall erbyn diwedd y flwyddyn hon.

## Gwybodaeth glir i ddefnyddwyr

A1.54 Roedd ACNI a'r CCP ill dau yn annog Ofcom i ddefnyddio economeg ymddygiad i helpu i ddeall sut mae defnyddwyr yn gwneud penderfyniadau a'r rhan sy'n cael ei chwarae gan wybodaeth (er enghraifft, yr wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi i ddefnyddwyr sy'n dewis gwasanaeth newydd).

A1.55 Roedd y CCP hefyd yn croesawu darparu rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr ac yn hybu cynnwys gwybodaeth am lefelau cwynion a chanlyniadau o wasanaethau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfodau. Roedd Llais Defnyddwyr yr Alban yn dweud

y dylai Ofcom ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer mynnu bod darparwyr telathrebu'n cyhoeddi eu data cwynion eu hunain.

A1.56 Roedd Llais Defnyddwyr yn argymell bod Ofcom yn cysylltu ei waith ar atebion gwybodaeth i ddefnyddwyr gyda'i waith ar dryloywder gwybodaeth i ddefnyddwyr ynghylch rheoli traffig. Dylai'r gwaith hwn dorri ar draws y farchnad cyfathrebu ehangach a bod yn rhan o unrhyw system i fonitro perfformiad y post.

A1.57 Roedd Adran Menter, Masnach a Buddsoddi Gogledd Iwerddon yn awgrymu y dylai'r dadansoddiad o gyflymder llinellau sefydlog a gyhoeddir gan Ofcom ystyried effaith buddsoddiad ar gyflymder gwasanaethau sydd ar gael.

A1.58 *Rydym yn ddiolchgar i'r ymatebwyr am eu sylwadau. Bydd gwybodaeth i ddefnyddwyr yn dal i fod yn ganolog i'n gwaith ar rymuso defnyddwyr yn 2012/13. Rydym yn cytuno bod modd i economeg ymddygiad fod yn declyn dadansoddol cryf i asesu niwed defnyddwyr a byddwn yn parhau i ystyried cynnwys economeg ymddygiad pan fyddwn yn casglu tystiolaeth ar brosiectau defnyddwyr.*

A1.59 *Rydym yn cytuno bod data am gwynion yn ddata defnyddiol i ddefnyddwyr ei gymharu, a byddwn yn parhau i gyhoeddi data am y cwynion rydym yn eu cael o fewn y fframwaith y mae'r gyfraith yn ei ganiatáu. Rydym yn fodlon archwilio'r cwestiwn o ddata wedi'i gyhoeddi o ffynonellau eraill, rydym yn credu bod yn rhaid bod modd ei gymharu i helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau, a thrafod hyn ymhellach â rhanddeiliaid.* Bydd yr angen am wybodaeth dryloyw a dealladwy i ddefnyddwyr hefyd yn rhan allweddol o'n gwaith ar reoli traffig.

## Gwasanaethau i ddefnyddwyr sydd â nam ar eu clyw a/neu leferydd

A1.60 Pwysleisiodd Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu (CWU) bwysigrwydd sicrhau bod digon o wasanaethau'n cael eu darparu i ddefnyddwyr sydd â nam ar eu clyw. Roedd Phone Ability yn cydnabod bod gwella gwasanaethau cyfnewid yn waith a oedd yn mynd rhagddo, ond roedd yn credu y dylai barhau i fod yn flaenoriaeth i Ofcom.

A1.61 Amlinellodd Sorenson fanteision posibl gwasanaethau cyfnewid fideo ac awgrymodd y dylai Ofcom hyrwyddo gwasanaethau cyfnewid fideo fel blaenoriaeth yng Nghynllun Blynyddol 2012/13. Roedd ACOD yn dadlau y dylid cyflwyno gwelliannau i ddarpariaethau cyfredol (ee cyfnewid y genhedlaeth nesaf, lleferydd i destun, a gwasanaethau cyfnewid fideo) cyn gynted ag sy'n bosibl.

A1.62 *Mae ein hadolygiad o wasanaethau cyfnewid yn parhau i fod yn faes gwaith mawr i Ofcom yn 2012/13, fel y nodir ar dudalen 25. Byddwn yn asesu'r trefniadau cyfredol ar gyfer darparu gwasanaethau cyfnewid, gan ddod o hyd i fylchau mewn darpariaeth a chyflawni cywerthedd ac ystyried atebion cymesur.*

## Lleihau mannau di-gyswllt symudol

A1.63 Ailadroddodd yr ACNI ei bryder am grwydro symudol anfwriadol a lefel gyffredinol darpariaeth symudol ar draws Gogledd Iwerddon.

A1.64 Ar ben hynny, roedd Adran Menter, Masnach a Buddsoddi Gogledd Iwerddon wedi amlygu'r cyfle i ddarparu buddsoddiad sengl yn y rhwydweithiau symudol yng Ngogledd Iwerddon a galwodd ar Ofcom i weithio'n adeiladol gyda'r Adran i gyflawni hyn.

A1.65 Gofynnodd yr ACOD am roi ystyriaeth i ehangu cwmpas y prosiect i gynnwys grwpiau difreintiedig pobl hŷn a phobl anabl, er enghraifft drwy segmentu data yn ôl oed neu anabledd.

A1.66 *Mae problem mannau di-gyswllt yn dal yn bwysig i Ofcom ac mae'n dal i fod yn faes gwaith mawr i ni. Mae Prosiect Seilwaith Symudol (MIP) y Llywodraeth eisoes yn gweithio ar sut byddwn yn mynd i'r afael â mannau di-gyswllt ledled y DU drwy fuddsoddi mewn seilwaith newydd i ymestyn gwasanaethau symudol, a bydd ymgysylltu yn y gwledydd yn rhan o'r broses hon. Mae Ofcom yn cefnogi'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyflawni'r gwaith hwn.*

A1.67 Ailadroddodd yr CMS ei gais bod Ofcom yn gorfodi crwydro cenedlaethol rhwng rhwydweithiau symudol.

A1.68 *Mae gweithredwyr symudol eisoes yn rhydd i alluogi trefniadau crwydro ar sail fasnachol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Caiff rhagor o wybodaeth am grwydro cenedlaethol ei darparu yn Adran 8 ein Hasesiad o'r Sector Symudol yn 2009[9].*

## Gwasanaeth post cyffredinol ac anghenion defnyddwyr post

A1.69 Cododd Llais Defnyddwyr nifer o bwyntiau ynghylch rheoleiddio'r post:

- dylid monitro perfformiad y Post Brenhinol yn effeithiol;
- rhaid i fonitro fforddiadwyedd hefyd fod yn flaenoriaeth i Ofcom; ac
- mae angen i Ofcom roi ystyriaeth ofalus i effaith tynnu gofynion hysbysu'r farchnad oddi ar y Post Brenhinol.

A1.70 Dywedodd yr CWU ei bod yn rhaid cael mecanwaith monitro a rheoli i sicrhau bod pris cynnyrch gwasanaeth cyffredinol yn parhau yn fforddiadwy.

A1.71 *Mae'r materion a godwyd yn cael eu hystyried yn yr adolygiad cyfredol o'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer post, gan gynnwys yr adolygiad o amodau rheoleiddio. Rydym yn disgwyl gweithredu mesurau i sicrhau bod y drefn newydd yn cael ei monitro'n effeithiol yn ystod 2012/13.*

## Gwasanaethau cyfathrebu yn y gwledydd

A1.72 Roedd Llais Defnyddwyr yn cefnogi rhaglen Ofcom o fynediad i wasanaethau cyfathrebu yn y gwledydd, ond awgrymodd y dylid cysylltu hyn â phrosiectau sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio gwasanaethau cyfathrebu, yn enwedig band eang. Dywedodd Arqiva y dylid gweithio i wella'r sylfaen dystiolaeth sydd ar gael i'r Llywodraeth am y gwahaniaethau mewn gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer defnyddwyr trefol a gwledig.

A1.73 *Bydd Ofcom yn cynnal arolwg rheolaidd o ddefnyddwyr preswyl, gan fesur y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau cyfathrebu, gan gynnwys band eang. Caiff y canlyniadau hyn eu cyhoeddi'n rheolaidd a bydd dadansoddiad manwl yn cael ei*

[9] http://stakeholders.ofcom.org.uk/binaries/consultations/msa/summary/msa.pdf

*ddarparu yn ein Hadroddiad blynyddol o'r Farchnad Gyfathrebu. Yn ogystal â hyn, mae ymchwil llythrennedd yn y cyfryngau Ofcom yn rhoi dadansoddiad manwl o'r rhesymau dros ddefnyddio gwasanaethau digidol, gan gynnwys band eang, a'r rhesymau dros beidio â'u defnyddio.*

### Monitro dulliau o reoli traffig

A1.74 Awgrymodd yr CWU gyflwyno safonau sylfaenol ar gyfer rheoli traffig drwy orfodi rheoliadol. Roedd un unigolyn a ymatebodd wedi gofyn i Ofcom gyhoeddi rhagor o fanylion am ei ymchwil ar ddarparu mynediad rhyngrwyd 'ymdrechion gorau'.

A1.75 Roedd ITSPA yn cytuno ag Ofcom bod angen i'r darparwyr gwasanaeth rhyngrwyd a'r gweithredwyr rhwydweithiau symudol wneud mwy i ddarparu gwybodaeth gliriach i ddefnyddwyr am eu polisïau rheoli traffig.

A1.76 *Rydym wedi nodi ein dull gweithredu o ran niwtraliaeth net mewn datganiad sydd ar gael yma. Byddwn yn parhau i annog y farchnad i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr ac i ddinasyddion, megis cynllun y Grŵp Rhanddeiliaid Band Eang ar y Cod Ymarfer ar Reoli Traffig, ond byddwn yn parhau i adolygu posibilrwydd ymyriadau mwy ffurfiol mewn perthynas â'r materion rydym wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Byddwn hefyd yn parhau i weithio ar y materion hyn ar y lefel Ewropeaidd drwy'r Corff ar gyfer Rheoleiddwyr Cyfathrebu Electronig Ewrop (BEREC). Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau'r rhanddeiliaid ar y mater hwn a byddwn yn eu hystyried yn ein rhaglen waith fel sy'n briodol.*

### Gwybodaeth i ddefnyddwyr ar-lein

A1.77 Awgrymodd yr CCP y dylai'r maes hwn fod yn flaenoriaeth, yn hytrach nag yn faes gwaith, i Ofcom yn ystod 2012/13, yng ngoleuni pryder ar draws Ewrop gydag amddiffyn data dinasyddion.

A1.78 *Mae datblygu marchnadoedd data ar-lein yn faes pwysig i sectorau wedi'u rheoleiddio Ofcom ac yn faes o ddatblygiad sylweddol, yn enwedig yn y trafodaethau sydd ar fin digwydd ynghylch Fframwaith Diogelu Data'r UE. Byddwn yn ceisio cynnal ein dealltwriaeth dda o sut mae'r marchnadoedd yr effeithir arnynt yn esblygu a sut mae'r datblygiadau hyn yn effeithio ar allu defnyddwyr i gael y gwerth mwyaf o wasanaethau rhyngrwyd. Fodd bynnag, nid ydym yn gweld hyn fel blaenoriaeth i Ofcom oherwydd mai'r Comisiynydd Gwybodaeth sy'n bennaf gyfrifol am faterion sy'n ymwneud â diogelu data.*

## Darparu sicrwydd priodol i gynulleidfaoedd ynghylch safonau

### Rheoleiddio cynnwys yn y dyfodol

A1.79 Mae'r BBFC yn cytuno ag Ofcom y bydd maes gwasanaethau ar alwad yn parhau i beri sialensiau sylweddol ac felly mae'n iawn adolygu effeithiolrwydd strwythurau rheoleiddio sydd eisoes yn bodoli. Mae'r BBFC yn credu bod ei wasanaeth ar-lein ei hun yn dangos bod hunan-reoleiddio'n gallu gweithio yn y byd ar-lein heb fod angen ymestyn y drefn statudol bresennol, o leiaf am nawr.

A1.80 Wrth ystyried adolygiad arfaethedig Ofcom o ATVOD yn 2012/13, mae'r BBFC yn annog Ofcom yn gryf i beidio â gwneud dim byd a fyddai'n amharu ar y saernïaeth reoleiddio bresennol a gafodd ei dylunio, ei sefydlu ac sy'n cael ei rhedeg gan y

BBFC a'r diwydiant adloniant yn y cartref mewn gwasanaethau cyngor a sgoriau cynnwys ar-lein.

A1.81 *Rydym yn croesawu sylwadau rhanddeiliaid a'u profiad ymarferol yn yr adolygiad hwn a byddwn yn ystyried y rhain yn ein rhaglen waith fel sy'n briodol.*

### Radio masnachol

A1.82 Dywedodd RadioCentre y dylai Ofcom adolygu'r rheolau sy'n ymwneud â thrwyddedu analog a chyfeiriadau masnachol mewn rhaglenni radio. Gofynnodd FolderMedia Ltd hefyd am adolygiad o'r rheolau ar gyfer cyfeiriadau masnachol.

A1.83 *Yn ein dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â chyfathrebu masnachol mewn rhaglenni radio (20 Rhagfyr 2011) roeddem yn cynnig cadw golwg gyson ar weithredu Adran Deg o'r Cod Darlledu a, chyn pen dwy flynedd, penderfynu a ddylid ymgynghori ar unrhyw newidiadau pellach i'r rheolau, yn amodol ar feini prawf fel datblygiadau mewn polisi cyhoeddus, allbwn radio a all godi pryder ynghylch diogelu defnyddwyr a chwynion/materion a godir gan randdeiliaid. A ninnau ychydig dros hanner ffordd drwy'r cyfnod hwn o ddwy flynedd, byddwn yn parhau i gadw llygad ar hyn ac yn dod i benderfyniad cyn diwedd 2012 ar a oes angen ymgynghoriad pellach.*

## Cyfrannu at a gweithredu polisi cyhoeddus a ddiffinnir gan y Senedd

### Torri hawlfraint ar-lein

A1.84 Dywedodd Llais Defnyddwyr y dylai Ofcom gyhoeddi asesiad ynghylch a yw'r cod rhwymedigaethau cychwynnol yn diwallu nifer o'r gofynion sydd wedi'u pennu yn Neddf yr Economi Ddigidol 2010.

A1.85 *Rydym wedi cwblhau ein proses ymgynghori ar y Cod Rhwymedigaethau Cychwynnol arfaethedig ac rydym yn disgwyl cyhoeddi'r Cod drafft cyn bo hir. Bydd y Cod yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w ystyried dan y Gyfarwyddeb Safonau Technegol ac wedyn yn cael ei osod gerbron y Senedd. Byddwn yn cyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Cod a fydd yn cynnwys amserlen ar gyfer gweithredu.*

### Lluosogrwydd y cyfryngau

A1.86 Roedd y Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon yn annog Ofcom i ystyried amrywiaeth y cyfryngau sydd ar gael i bobl yng Ngogledd Iwerddon ar y teledu ac ar y radio.

A1.87 *Rydym yn gwerthfawrogi sylwadau'r rhanddeiliaid ar y mater hwn a byddwn yn eu hystyried yn ein rhaglen waith fel sy'n briodol.*

### Radio digidol

A1.88 Roedd RadioCentre yn cefnogi gwaith Ofcom i gefnogi Cynllun Gweithredu Radio Digidol y Llywodraeth, ond roedd yn teimlo y dylai'r gwaith ar Gynllunio Sbectrwm

DAB a helpu gyda'r Adolygiad Statudol ar gyfer Newid i Radio Digidol fod yn fwy amlwg yng nghynlluniau Ofcom.

A1.89 Dywedodd FolderMedia Ltd y dylai'r Cynllun Blynyddol gynnwys adolygu'r cyfle i hysbysebu'r ail amlblecs DAB cenedlaethol.

A1.90 *Ar hyn o bryd nid yw Ofcom yn bwriadu hysbysebu ail amlblecs radio masnachol cenedlaethol. Serch hynny, rydym yn parhau i fonitro lefelau'r diddordeb gan ymgeiswyr posibl, ac wrth i'r Llywodraeth a'r diwydiant symud tuag at ffordd y cytunir arni ar gyfer radio digidol, byddwn yn dal i adolygu hysbysebu trwydded o'r fath.*

## Ymatebion eraill

A1.91 Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebion a gawsom yn ymwneud â meysydd y Cynllun Blynyddol, cyflwynodd rhanddeiliaid sylwadau ar feysydd gwaith eraill hefyd.

### Oedi gyda phrosiectau Ofcom

A1.92 Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr oedi wrth gwblhau prosiectau Ofcom, yn enwedig adolygiadau o'r farchnad. Roedd pryder y dylai digon o adnoddau a chyllideb fod ar gael i sicrhau bod materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth yn cael eu trin mewn ffordd amserol.

A1.93 *Rydym yn gwerthfawrogi bod y pryderon a godwyd mewn sylwadau'n ymwneud ag oedi gyda nifer o adolygiadau pwysig o'r farchnad. Mae Ofcom yn disgwyl y bydd ganddo ddigon o adnoddau ar gael, yn unol â'r gyllideb a sefydlwyd gan Ofcom a'i flaenoriaethau strategol, i gyflawni'r canlyniadau sydd wedi'u disgrifio yn y Cynllun Blynyddol yn ystod 2012/13.*

### Defnyddwyr busnes

A1.94 Awgrymodd y CMA a Cable &WirelessWorldwide y dylai'r Cynllun Blynyddol roi mwy o bwyslais ar anghenion defnyddwyr busnes, sy'n galw am ddull gweithredu rheoleiddio gwahanol i ddefnyddwyr preswyl.

A1.95 *Rydym yn gwerthfawrogi bod anghenion defnyddwyr busnes yn gallu bod yn wahanol i anghenion defnyddwyr preswyl, ac y gall hyn olygu bod angen dull rheoleiddio gwahanol. Mae ein hadolygiad o'r Farchnad Cysylltedd Busnes yn flaenoriaeth yn ein rhaglen waith ar gyfer 2012/13 a bydd yn edrych ar ystod eang o wasanaethau sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau a darparwyr cyfathrebu. Yn ystod 2012/13 byddwn hefyd yn dal i ymateb i anghenion ehangach defnyddwyr busnes ac yn sicrhau bod darparwyr yn gallu cystadlu er mwyn cynnig gwasanaethau i ddefnyddwyr busnes terfynol.*

### Amodau Cyffredinol

A1.96 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn credu y dylai Ofcom adolygu'r Amodau Cyffredinol i sicrhau eu bod yn dal yn effeithiol. Roedd ymatebwyr hefyd wedi argymell y dylai Ofcom gyhoeddi canllawiau ar gyfer dehongli'r Amodau Cyffredinol.

A1.97 *Mae nifer o'n prosiectau cyfredol yn ystyried a ddylid newid neu ddiweddaru Amodau Cyffredinol (ee Adolygu Amod Cyffredinol 15). Byddwn yn ystyried a oes angen rhagor o waith ar Amodau Cyffredinol unigol neu adolygiad ehangach.*

### Twyll a chamddefnydd

A1.98 Roedd FCS a darparwr telathrebu sefydlog wedi awgrymu y dylai Ofcom ystyried maes gwaith ychwanegol ynghylch mecanweithiau i rwystro mynediad i rifau neu wasanaethau os oes cyfiawnhad dros hynny yn sgil rhesymau sy'n ymwneud â thwyll a chamddefnydd.

A1.99 *Byddwn yn parhau i adolygu'r Prawf Diogelu Defnyddwyr (CPS). Mae'r Prawf Diogelu Defnyddwyr yn galluogi Ofcom i wrthod dyrannu blociau o rifau i unigolion mewn rhai amgylchiadau, i ddiogelu defnyddwyr rhag y perygl o dwyll neu gamddefnydd. Byddwn hefyd yn ystyried y cwestiwn o fynediad i rifau fel rhan o'n gwaith ar alwadau nad ydynt yn rhai daearyddol, yn enwedig mewn perthynas â'r ystodau rhifau y sefydlwyd eu bod mewn perygl o dwyll, megis 070.*

### Taliadau symudol

A1.100 Awgrymodd Llais Defnyddwyr fod Ofcom yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill yn y maes hwn i fapio unrhyw fylchau posibl o ran diogelu defnyddwyr a gorfodaeth.

A1.101 *Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill a rhanddeiliaid i ddeall y dirwedd o feicrodaliadau sy'n dod i'r fei. Mae'n bwysig sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu, yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio ac ar draws llwyfannau taliadau eraill.*

### Gwasanaethau ymchwilio ac ymyrraeth

A1.102 Holodd un unigolyn a ymatebodd a fydd colli'r refeniw gan y BBC ar gyfer gwasanaethau ymchwilio i ymyrraeth sbectrwm yn effeithio ar lefel neu swmp y gwasanaeth ymchwilio y gall Ofcom ei gynnig.

A1.103 *Roedd colli'r contract BBC wedi arwain at ostyngiad yn y llwyth achos ar gyfer y tîm ymyrraeth, a oedd yn golygu ei bod yn rhaid lleihau maint y tîm ledled y DU. Cafodd y newid hwn ei wneud mor gyflym ag oedd yn bosibl ac mae'r swyddogaeth ymyrraeth nawr o'r maint priodol ar gyfer y gofynion ar ein gwasanaethau. Rydym yn monitro ein perfformiad yn ofalus drwy ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac rydym wedi gweld ein perfformiad yn gwella'n gyffredinol ers rhoi'r newidiadau hyn ar waith.*